

“Symud Ymlaen”

Cynllun Gwella Cyngor

Cyngor Dinas a Sir Abertawe 2007-08



Cynnwys

Rhif y Dudalen

Rhagair	3
Pennod 1 - Yr Agenda Genedlaethol – “Creu’r Cysylltiadau”	6
Pennod 2 - “Mae Uchelgais yn Hollbwysig” – Strategaeth Gymunedol Abertawe	14
Pennod 3 - Nodau ac Uchelgeisiau’r Cyngor	21
Pennod 4 - Cyflawniadau a Chamau Gweithredu	33
Pennod 5 - Rheoli a Chraffu	45
Pennod 6 - Costau’r Cyngor	54
Pennod 7 - Rhaglenni a Phrosiectau	59
Pennod 8 - Crynodeb o Berfformiad ar gyfer 2006/2007	67
Atodiad A - Canlyniadau Perfformiad ar gyfer 2006/2007	71
Atodiad B - Sut i gael mwy o wybodaeth	140

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â’r Tîm Perfformiad Busnes ar:

- Ffôn 01792 636852
- Ffôn testun 01792 636733
- E-bostiwrch improvement@swansea.gov.uk

Rhagair

Croeso i Gynllun Gwella Blynyddol Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2007/2008.

Mae "Symud Ymlaen" yn nodi Amcanion a Chantau Gweithredu'r Cyngor ar gyfer y dyfodol ac yn arbennig y flwyddyn nesaf. Nod y rhain yw cyflawni a chynnal gwelliant mewn perfformiad ac wrth gyflwyno gwasanaethau.

Gwelwyd nifer o newidiadau a heriau'n wynebu Abertawe yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac amlinellir rhai enghreifftiau o hyn yn gryno isod.

Mae adnewyddu'r Ganolfan Hamdden, gwerth £32 miliwn, wedi parhau fel y disgwyl a bwriedir ei chwblhau yn ôl yr amserlen erbyn diwedd 2007, a bydd ar agor i'r cyhoedd yn gynnar yn 2008.

Mae datblygu'r Ganolfan Ddinesig newydd, yn Neuadd y Sir, hefyd yn parhau yn ôl y disgwyl, ac fe agorwyd y Ganolfan Gyswilt a'r Gwasanaeth Archifau ym mis Medi. Bydd y gwaith yn parhau i greu Llyfrgell Ganolog newydd, caffi a man arddangos newydd a disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau erbyn y gwanwyn 2008.

Buom yn llwyddiannus wrth ennill yr hawl i gynnal cynhadledd dwristiaeth genedlaethol nodedig. Cynhelir cynhadledd y Gymdeithas Trefnwyr Gwyliau Grŵp yn Abertawe ym mis Ionawr 2008; digwyddiad 3 diwrnod, yn cynnwys teithiau o amgylch Bae Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr ar gyfer y cynrychiolwyr. Yn wir, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd o 17% ymysg y rheiny sy'n ymweld â Bae Abertawe am y dydd. Mae digwyddiadau newydd megis Gwledd y Gaeaf ar y Glannau ac Eisteddfod Genedlaethol y llynedd wedi helpu i ddenu ymwelwyr i Abertawe. Denodd twristiaeth gyfanswm o 3.9 miliwn o ymwelwyr yn 2006 gyda'r ymwelwyr yn gwario £255.6 miliwn yn yr economi leol.

Mae derbyniadau swyddfa docynnau Theatr y Grand Abertawe wedi curo'r nod o £3 miliwn, am y tro cyntaf mewn 110 o flynyddoedd. Mae ffigurau'n dangos bod y cyfleuster wedi cynhyrchu saith y cant yn fwy o incwm dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf nac yn 2005/2006. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod y Grand wedi croesawu bron 260,000 o bobl dros gyfnod o 12 mis. Mae cyngherddau a chynyrchiadau poblogaidd megis Blood Brothers, Joseph and his Amazing Technicolour Dreamcoat a Bale Dinas Moscow i gyd wedi helpu i gyfrannu at y canlyniad terfynol.

Mae'r Cyngor wedi dechrau ar raglen a fydd yn gosod ffenestri newydd mewn mwy na 470 o gartrefi'r cyngor fel rhan o gynllun gwella gwerth £1.1 miliwn. Hwn yw'r cynllun diweddaraf gan y cyngor i osod ffenestri dwbl PVC ym mhob tŷ Cyngor er mwyn gwella safon ac effeithlonrwydd ynni'r tai hyn.

O ran Rheoli Gwastraff, mae Abertawe'n parhau i ragori ar y targedau ailgylchu, a lleihau canran y gwastraff bioddiraddadwy a anfonir i'w dirlenwi.

Derbyniwyd hefyd wobwr am fod yr Awdurdod Trafnidiaeth sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru, roedd hyn yn cydnabod y tri safle parcio a theithio a'r gwasanaeth Gower Explorer.

Bydd llawer wedi sylwi ar y newidiadau sydd ar waith yng nghanol y ddinas a'r amharu yn sgil hynny ar y llwybrau i ganol y ddinas. Cwblhawyd Cam 1 y gwaith gwella fel rhan o System Fetro Abertawe. £3.75 miliwn yw gwerth buddsoddiad cynllun Manwerthu Craidd Canol y Ddinas a bydd yn cynnwys adnewyddu arwynebau presennol â deunyddiau o safon yn ogystal â chyflwyno celfi stryd newydd a chelf gyhoeddus a fydd yn dirnod. Rydym yn sicr y byddwch yn gweld yn y pen draw bod eich amynedd ynghylch y gwaith dros dro hwn yng Nghanol y Ddinas wedi bod yn werth chweil.

Mae'r Cyngor wedi lansio'r prosiect 'Pontio'r Bwlch Polisi' sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi plant. Abertawe yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn yr amcan Undeb Ewropeaidd pwysig hwn. Yn dilyn cynllun peilot yn 2006, mae ail ymdrech wedi dechrau i ddarparu gwasanaethau maethu'n lleol, gan osgoi lleoliadau y tu allan i'r ardal drwy ddarparu gofalwyr cyflogedig ar gyfer y cynllun.

Eleni, agorodd y Cyngor ysgol gynradd newydd yn St Thomas - ysgol fodern gwerth £6.7 miliwn sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol fel llyfrgell newydd. Hefyd, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, wedi cyflwyno menter beicio'n ddiogel yn ysgolion cynradd Abertawe, sy'n rhoi hyfforddiant beicio i blant ar ffyrdd ffug i gynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion diogelwch.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r rhaglen e-Lywodraeth, gan lwyddo i ddisodli dros 30 system TG gydag un system gorfforaethol. Bydd nifer o brosiectau pellach yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r buddsoddiad pwysig hwn.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ein Harchwilwyr penodedig, PricewaterhouseCoopers. Ceir crynodeb o'r archwiliad a'r arolygiadau ym Mhennod 6 y ddogfen hon.

Mae'r Cyngor yn hapus iawn gyda'i gyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'n cydnabod bod sawl her yn ein hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yr ydym, felly, yn parhau i ganolbwyntio ar bum thema gorfforaethol sy'n cwmpasu'n fras brif swyddogaethau'r Cyngor ynghyd â chyfres o egwyddorion a swyddogaethau sylfaenol a fydd yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau. Dyma'r pum Thema Gorfforaethol:

- Y gymuned
- Yr Amgylchedd
- Iechyd a Lles
- Ffyniant
- Dysgu

Cewch esboniad pellach a manylion am y rhain ym Mhennod 3.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i wella'n perfformiad yn y meysydd allweddol hyn o flwyddyn i flwyddyn. Mae gan y cynigion ar gyfer gwelliant a datblygiadau allweddol fel prosiect y Ganolfan Ddinesig, yr isadeiledd cludiant a fframwaith canol y ddinas oll y potensial i ychwanegu gwerth at Abertawe a'n dwyn gam yn nes at ein gweledigaeth o fod yn Ddinas Ewropeaidd unigryw erbyn 2020.

Bydd y penodau sy'n dilyn yn egluro'n fanylach sut mae'r Cyngor wedi perfformio yn ystod 2006/07 a'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i wella perfformiad yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae ein gwefan www.swansea.gov.uk yn darparu gwybodaeth bellach am feysydd penodol o ddiddordeb.



ARWEINYDD



PRIF WEITHREDWR

Pennod 1

Yr Agenda Genedlaethol – “Creu'r Cysylltiadau”

Beth ydyw?

“Creu'r Cysylltiadau yw gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ffyniannus, gynaliadwy, ddwyieithog, a iachach, lle ceir gwell addysg. Bydd y weledigaeth hon yn arwain at drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a chyflwyno gwasanaethau o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru “Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni ar draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru”. Mae'r ddogfen hon yn datblygu'r weledigaeth ymhellach ac yn cynnwys ymateb y Cynulliad i adolygiad Beecham ar gyflwyno Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2006.

Mae pum prif thema yn yr adroddiad, bob un wedi'u cefnogi gan nifer o gamau gweithredu allweddol. Mae'r themâu'n cael eu crynhoi isod:

- **Rhoi dinasyddion yn gyntaf** - rhaid i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus fod yn fwy uchelgeisiol ynghylch cynnwys dinasyddion wrth ddylunio, cyflwyno a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i wasanaethau gael eu dylunio i fodloni anghenion yr holl ddinasyddion a rhaid cael egwyddorion craidd ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid, a mynediad clir a thryloyw i wneud iawn.
- **Gweithio gyda'n gilydd i gyflwyno** - bydd sefydliadau gwasanaethau lleol yn dechrau creu Byrddau Gwasanaeth Lleol (BGLI gweler isod) yn 2007-08. Bydd y rhain yn datblygu o'r partneriaethau strategaeth gymunedol presennol ond byddant yn canolbwyntio ar weithredu a chyflwyno ar y cyd yn ogystal â chynllunio ar y cyd. Nid sefydliadau newydd yw Byrddau Gwasanaeth Lleol, ond timau arweinyddiaeth lleol, yn dwyn yr holl bartneriaid ynghyd i gytuno ar gamau gweithredu ar y cyd er mwyn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion lle mae'n rhaid gweithio ar draws ffiniau trefniadaethol. Bydd gan y Byrddau berthynas uniongyrchol â Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Weinidogion ac uwch-swyddogion.
- **Gweithlu o'r radd flaenaf** - rhaid i ni gynnwys y gweithlu wrth wella gwasanaethau cyhoeddus a defnyddio'r egni a'r brwdfrydedd helaeth sydd ar gael i gyflwyno gwasanaethau ardderchog. Rhaid i ni ddatblygu a chymhwyso ein gweithlu gyda'r sgiliau i gyflawni eu gwaith - ac arwain - yn effeithiol.
- **Mwy o werth ar gyfer y bunt Gymreig** - bydd y dechrau da a gafwyd ar yr agenda effeithlonrwydd yn cael ei gynnal - gyda chynnydd cynt ar ddatblygu gwasanaethau a rennir a rhyddhau adnoddau i'r rheng flaen.
- **Gyrru'r newid: llywodraeth, adnoddau a pherfformiad** - bydd rhoi'r agenda ar waith yn golygu newid arwyddocaol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gan adeiladu ar eu rolau yn y Cynllun Gofodol, bydd gan Weinidogion gyfrifoldeb am ardal ddaearyddol er mwyn goruchwylio ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad â Byrddau Gwasanaeth Lleol ynghyd â'u portffolios gwasanaeth sefydledig.

Beth sy'n digwydd yn Abertawe?

Cynnydd cyffredinol

Yn ystod 2006, ymgwymerodd Swyddfa Archwilio Cymru ag astudiaeth genedlaethol a oedd yn nodi cynnydd pob Awdurdod Lleol wrth ymateb i'r agenda Creu'r Cysylltiadau. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar bedwar prif faes:

- cyd-weithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru,
- canolbwyntio ar y dinesydd – gwasanaethau i gwsmeriaid,
- canolbwyntio ar y dinesydd – cynnwys y cyhoedd, a
- pharatoi'r gweithlu.

O ran ein cynnydd cyffredinol yn erbyn yr agenda, daethpwyd i'r casgliad canlynol; *'Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn symud ymlaen yn dda wrth roi agenda Creu'r Cysylltiadau ar waith gyda'r potensial i newid yn sylweddol yn y dyfodol agos'.*

Ymgwymerir ag astudiaethau ychwanegol eleni ac yn ystod y blynyddoedd nesaf i asesu cynnydd y Cyngor ymhellach yn erbyn yr agenda bwysig hon.

Targedau ariannol ac enillion effeithlonrwydd

Yn y ddogfen "Creu'r Cysylltiadau", mae LICC wedi targedu £600 miliwn o welliannau gwerth am arian i'w darparu gan y prif gyrff cyhoeddus erbyn 2010. Mae'r ffigwr hwn gyfwerth â 5% o gyfanswm buddsoddiad y sector cyhoeddus ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae'n golygu 1% y flwyddyn am 5 mlynedd gyda'r disgwyliad y bydd hanner y gwerth yn cael ei gyflawni erbyn 2008.

Y nod yw cyflawni'r targedau ariannol hyn drwy arbedion effeithlonrwydd, lleihau costau a gwella gwasanaethau. Yn nodweddiadol, disgwylir i hyn gael ei gyflwyno drwy:

- gaffael mwy doeth,
- symleiddio swyddogaethau cefnogi,
- llywio gwasanaethau'n fwy effeithiol i ddiwallu anghenion y cyhoedd, a
- gwneud defnydd gwell o amser, sgiliau ac arbenigedd staff.

Camau gweithredu i gyflawni'r enillion effeithlonrwydd

Fel rhan o drefn cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor, mae gan y gwasanaethau'r dasg o fodloni gofynion cyllideb ac enillion effeithlonrwydd llym. Mae enillion effeithlonrwydd yn cael eu cyflwyno mewn nifer o ffyrdd, nodir rhai o'r gweithgareddau a'r rhaglenni sy'n rhan o gyflwyno'r gwelliannau hyn isod.

● **Caffael mwy doeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae swyddogaeth caffael strategol y cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid a chyflenwyr i gyflwyno gwerth gorau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

Mae ymagwedd fwy strategol a chorfforaethol i weithgareddau caffael yn cael ei mabwysiadu. Cynhaliwyd dadansoddiad gwariant helaeth gyda'r bwriad o gyflawni gwell gwerth am arian. Mae adolygu rheolau gweithdrefnau contractau a systemau gweithredol wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn gweithdrefnau caffael. Bydd cyflwyno'r system archebu electronig i-Siop yn cyflwyno effeithlonrwydd yn y broses archebu a thalu ac yn rheoli gwybodaeth mewn modd llawer gwell.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cyfleoedd caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol ac mae'n awyddus i fynd ati i gyflwyno siarter agor drysau y Cynulliad yn lleol. Mae'r cyngor yn parhau i wneud cyfleoedd caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol ac i'r perwyl hwn, mae wedi cefnogi gwaith y Ganolfan Fusnes gyda chyfres o gyrsiau llwyddiannus i fusnesau lleol ar sut i dendro am gontractau'r cyngor. Mae gwaith hefyd wedi parhau ar gyflwyno rhaglen hyfforddi ar reoli contractau helaeth ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, gan sicrhau bod staff mewn sefyllfa well i reoli cyllidebau eu hadrannau. Mae cwrs caffael cynaliadwy'n cael ei ddatblygu i'w gyflwyno yn ystod 2007/08.

Mae'r Cyngor wedi mynd ati i gefnogi sawl ymagwedd gydweithrediadol tuag at gaffael mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus Cymreig cyfan a hefyd mae'n parhau i gefnogi Consortiwm Prynu Cymru (CPC). Profodd contractau gosod Cymru gyfan diweddar ar gyfer teiars cerbydluoedd a chyfarpar TG ysgolion yn arbennig o fuddiol. Drwy ymrwymo i gontractau Cymru gyfan a chontractau CPC, mae costau prynu pethau'n gostwng a cheir arbedion cost drwy brynu mewn partneriaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymroddedig i gontractau corfforaethol pan nad oes fframweithiau cenedlaethol addas yn bodoli. Dwy enghraifft benodol o gytundebau fframwaith corfforaethol a hysbyswyd yn ddiweddar yw contractau tacsis (o'r cartref i'r ysgol a chludiant gofal cymdeithasol ar gyfer pobl ag anghenion arbennig yn bennaf), a'r contractau asiantaeth gyflogaeth (fe'u defnyddir pan fydd angen i'r Cyngor lenwi swyddi gwag byr dymor e.e. absenoldeb mamolaeth etc). Bydd y broses gaffael ar gyfer y ddau fframwaith hyn wedi'i chwblhau erbyn yr hydref 2007.

Bydd caffael strategol yn cynorthwyo'r cyngor i wella effeithlonrwydd a chyflawni gwerth gorau gyda'r holl gontractau. Bydd y gwaith yn parhau dros y flwyddyn nesaf i ailstrwythuro'r gwasanaeth caffael corfforaethol, a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu'r defnydd o gontractau corfforaethol ymhellach, cynnal cywirdeb a sicrhau cynaladwyedd ym mhob un o'n prosesau caffael.

● **Y Rhaglen e-Lywodraeth**

Dechreuodd Rhaglen e-Lywodraeth y Cyngor yn 2006 i helpu'r Cyngor i fodloni'r nodau corfforaethol canlynol:

- Gweithredu fel un sefydliad.
- Gwella, drwy'r Rhaglen e-lywodraeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

O fewn blwyddyn o ddechrau'r rhaglen ddeng mlynedd uchelgeisiol hon, mae'r Cyngor wedi cyflawni'r canlynol:

- Amnewid dros 30 o systemau TG ag un system gorfforaethol. Roedd llawer o'r systemau hyn yn defnyddio technoleg a oedd wedi dyddio ac yn agosáu at ddiwedd eu bywyd cefnogi. Gall un system gael ei chefnogi'n fwy effeithlon, mae'n symleiddio hyfforddiant a defnydd gan ein gweithwyr ac yn darparu gwybodaeth ac adrodd safonedig ar draws y sefydliad ac yn gorfforaethol.
- Am y tro cyntaf, mae gan y Cyngor un gronfa ddata AD, a fydd yn ein galluogi gydag amser i gefnogi ein gweithwyr yn well, i fonitro hyfforddiant ac achredu ac i reoli perfformiad a recriwtio.

Dros y 6 i 12 mis nesaf, bydd y Rhaglen e-Lywodraeth yn cyflwyno prosiectau pellach i wireddu'r manteision y gall y Cyngor eu cyflawni o'r buddsoddiad pwysig hwn. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Rhoi cyflogres newydd ar waith, wedi'i hintegreiddio â'r system AD, a fydd yn symleiddio system prosesu cyflogres bresennol y Cyngor, gan ein galluogi i weithredu 11 cyflogres yn hytrach na'r 22 sydd gennym ar hyn o bryd.
- Prosiect Gwella Gwasanaethau a fydd yn cefnogi amcan y Cyngor o Wella Parhaus, gyda phrosesau busnes yn cael eu hail-weithio i fwyafu'r defnydd ymarferol o'r Rhaglen e-Lywodraeth er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflwyno gwasanaethau, a hynny'n economaidd.
- Prosiect Datblygu Pwrcasu a fydd yn ehangu'r defnydd o brynu mwy o nwyddau a gwasanaethau ar-lein, datblygu rhwydwaith gwell o brynwyr ac ehangu'r defnydd o gardiau prynu.

Roedd cynllun gwreiddiol y gyllideb ar gyfer 2006/07 yn darparu arbedion effeithlonrwydd e-Lywodraeth o £711,000. Er cafodd y ffigwr hwn ei adolygu i £132,000 ym mis Chwefror 2007, mae'n dal i fod yn nod gan y Cyngor i fwyafu lefel wreiddiol yr arbedion effeithlonrwydd a ragwelwyd. Ym mis Chwefror 2007, roedd cynllun y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08 gan y Cyngor yn cynnwys arbedion gwerth £1.2 filiwn o'r Rhaglen e-Lywodraeth.

● **Cyswllt Abertawe**

Dan faner 'Cyswllt Abertawe' bydd y Cyngor yn gwneud llawer o'r gwasanaethau y mae'n eu cyflwyno i'r cyhoedd yn fwy hygyrch. Mae arwyddion gweladwy Cyswllt Abertawe eisoes yn amlwg gyda gwelliannau i wefan y Cyngor (www.abertawe.gov.uk), gan ddarparu mwy o wybodaeth am wasanaethau drwy'r system Cwestiynau Cyffredin hawdd ei defnyddio a fydd yn darparu gwybodaeth wedi'i theilwra ar gyfer y cwsmer.

Yn fuan, bydd y Cyngor yn lansio gwasanaeth 'agosaf ataf i', ynghyd â mapiau ar-lein. Datblygiad arall fydd ffurflenni ar-lein yn lle'r system bresennol o lawrlwytho, argraffu ac anfon ffurflenni yn ôl.

Yr arwydd mwyaf gweladwy o gynnydd Cyswllt Abertawe fydd y Ganolfan Gyswllt, a fydd yn agor yn Neuadd y Sir fel rhan o'r Ganolfan Ddinesig newydd. Bydd y Ganolfan Gyswllt yn trafod amrywiaeth eang o ymholiadau a chydag amser bydd yn ganolbwynt ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb â'r Cyngor. Mae gwaith cynllunio hefyd yn parhau i ddatblygu canolfan alwadau gorfforaethol i drafod cyswllt cwsmeriaid dros y ffôn.

Nid oes amheuaeth fod ymagwedd Abertawe'n bodloni agenda llywodraeth ganolog ac amcanion agenda Creu'r Cysylltiadau. Yr un mor bwysig, bydd yn gwella ac yn symleiddio'r ffordd rydym yn cyflwyno gwasanaethau rheng flaen.

● **Cludiant**

Monitro Cerbydau- mae cyflwyno system olrhain cerbydau wedi galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau deallus yn seiliedig ar adroddiadau cywir a manwl ar ddefnyddio cerbydau. Mae'r fenter wedi cyflwyno enillion effeithlonrwydd drwy ad-drefnu cerbydau a gwella rheoli amser a chynhyrchiant.

Ad-drefnu'r Gronfa Geir - drwy gymryd gwedd gorfforaethol ar y gronfa geir, mae'r Cyngor wedi gallu nodi cyfleoedd i'w rhannu gan arwain at leihau nifer y cerbydau ac annog defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Adolygu'r Cerbydlu Corfforaethol - mae hyn wedi nodi'r potensial am arbedion, symud cerbydau o drefniadau byr dymor ac ymgymryd ag ymarfer caffael i hwyluso mwy o amodau darbodus a hyblyg.

Mae'r Cyngor wedi caffael cymysgedd 95/5 bio-disl ac wedi cyflwyno hyn at ddefnydd y cerbydlu am gost niwtral, felly'n lleihau ein dibyniaeth ar gerbydau dau danwydd drutach i fodloni ein hamcanion amgylcheddol.

● **Gwasanaethau a Rennir a Gweithio gyda'n Gilydd**

Mae Abertawe eisoes wedi ailstrwythuro'i swyddogaethau Adnoddau Dynol, y Gyflogres, Cyllid a Chaffael, gan ddod â'r swyddogaethau cefnogi hyn ynghyd fel rhan o agenda y gwasanaethau a rennir. Mae swyddogaethau cefnogi eraill ar draws Adran y Prif Weithredwr yn parhau i symleiddio a lleihau baich y gost gyffredinol i'r gwasanaethau rheng flaen. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, cynhelir gwaith gwella gwasanaethau parhaus, fel rhan o raglen e-Lywodraeth y Cyngor, gan barhau i nodi meysydd lle gellir symleiddio systemau a phrosesau presennol, gan ddarparu enillion effeithlonrwydd.

Nid yw'r Cyngor yn gweithio ar ei ben ei hun i gyflwyno'i holl wasanaethau ac ni all wneud hyn. Rydym yn gweithio gyda nifer mawr o bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwnaed llawer o waith i 'nodi'r' holl bartneriaethau y mae'r Cyngor ynghlwm wrthynt. Mae'r rhain yn amrywio o bartneriaethau strategol mawr sy'n cefnogi themâu allweddol y Strategaeth Gymunedol i nifer o bartneriaethau neu weithgorau ffurfiol ac anffurfiol llai.

Eleni, mae'r Cyngor wedi hwyluso adolygiad cadarn o Bartneriaeth Her Iechyd Abertawe gan awgrymu trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni newydd i gefnogi gwaith y bartneriaeth. Bydd yr adolygiad, ar ôl ei gwblhau, yn sail i broses adolygu barhaus o bartneriaethau strategol eraill y Cyngor.

Mae partneriaethau a gweithio cydweithredol hefyd wrth wraidd Agenda Creu'r Cysylltiadau. Mae'r Cyngor yn rhan o sawl partneriaeth a threfniadau gweithio ar y cyd, gan gynnwys y canlynol, er nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Partneriaethau Strategol

- Partneriaeth Gwell Abertawe
- Partneriaeth Her Iechyd Abertawe
- Partneriaeth Ddysgu Abertawe
- Bwrdd Gweithredol Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe
- Partneriaeth yr Amgylchedd Abertawe
- Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ynghylch y rhain, camau gweithredu allweddol etc. ym Mhennod 2.

Enghreiffiau o Bartneriaethau eraill

- **Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru** - fe'i sefydlwyd i hyrwyddo twf economaidd de-orllewin Cymru.
- **Partneriaeth Canol y Ddinas** - partneriaeth gyhoeddus a phreifat sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Abertawe fel cyrchfan o fri ac yn lle deniadol i siopa, byw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.
- **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe** - y sefydliad ymbarél ar gyfer gweithgareddau gwirfoddol ledled Dinas a Sir Abertawe.
- **SWITCH** - consortiwm Trafnidiaeth Integredig De-orllewin Cymru - cynghrair ffurfiol rhwng pedwar Awdurdod Unedol De-orllewin Cymru. Mae'n un o'r pedwar consortiwm Cymreig sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n gweithio i ddatblygu polisiau trafndiaeth strategol, isadeiledd, gwelliannau a newid agwedd pobl tuag at drafnidiaeth.
- **Cyswllt Abertawe** - datblygu Cytundeb Gwasanaeth rhwng Cyngor Abertawe a Chyngor Caerdydd i gyflwyno system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a gwelliannau busnes er budd cwsmeriaid Dinas a Sir Abertawe.

Trefniadau Gweithio ar y Cyd

- **Uned Hydwythedd ar y Cyd** - gan weithredu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, mae'r uned yn sicrhau bod yr awdurdodau'n cydymffurfio â dyletswyddau statudol Deddf Argyfyngau Sifil Posib (2004) etc.
- **Tim Cyfreithiol Gofal Plant ar y Cyd Gorllewin Morgannwg** - fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2002, a'i nod yw darparu gwasanaeth cyfreithiol hygyrch, effeithlon, cost effeithiol a phroffesiynol i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol tri awdurdod, o ran gofal plant ac amddiffyn plant.
- **Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg** - gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot i leoli, cadw a hygyrchu dogfennau sy'n ymwneud â phob agwedd ar hanes ardal Gorllewin Morgannwg.

Cronfa Wella "Creu'r Cysylltiadau"

Nod Cronfa Wella "Creu'r Cysylltiadau" (y Gronfa) yw annog gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gefnogi gwell cydweithio ar draws y sector cyhoeddus. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu arian sefydlu tuag at y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cynigion gwella drwy bartneriaethau strategol. Bwriad y gronfa yw helpu prosiectau sy'n ysgogi newid i arwain at welliannau sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus er lles y dinesydd, mae rhai o'r amcanion allweddol yn cynnwys;

- cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwell yn unol ag agenda "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- mynd i'r afael â rhwystrau allweddol sy'n atal gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd,
- annog cydweithredu rhwng cyrff,
- cynhyrchu manteision y gellir eu dyblygu neu eu cymhwyso'n fwy eang ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac
- annog lledaenu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau.

Mae cyfanswm o £9 miliwn ar gael dros 3 blynedd. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd y Cyngor, mewn partneriaeth â nifer o Awdurdodau Lleol/sefydliadau eraill, yn rhan o nifer o brosiectau a gefnogir gan yr arian hwn. Roedd y prosiectau'n cynnwys;

- Gwasanaethau a rennir y tu allan i oriau swyddfa - ymchwilio i botensial cynnig darpariaeth aml-asiantaeth, drawsffiniol y tu allan i oriau ar gyfer gwasanaethau hanfodol.
- Creu'r Cysylltiadau - Addysg - ymchwilio i ffyrdd y gall gweithio'n rhanbarthol gael ei fabwysiadu i ddarparu gwasanaethau gwell, o fewn y system addysg i ddechrau, e.e. hyfforddiant proffesiynol a chefnogaeth pynciau sylfaenol.
- Prosiect 'Gwelliannau drwy Gydweithio' - roedd hyn yn cynnwys ymgais i benodi rheolwr prosiect i archwilio i'r cyfleoedd o gomisiynu rhanbarthol ar y cyd a datblygu offeryn costio ar gyfer pecynnau gofal cymdeithasol anabledau dysgu/ iechyd meddwl drud.
- Canolfan a rennir ar gyfer y Gwasanaethau Cyfreithiol - dan arweiniad Prifysgol Abertawe, mae'r prosiect hwn yn ceisio adeiladu ar drefniant presennol o wasanaethau cyfreithiol a rennir drwy ymestyn nifer yr awdurdodau sy'n rhan a chylch gwaith y trefniant.
- Consortiwm Prynu Cymru - nodi'r cyfleoedd i ehangu Consortiwm Prynu Cymru i'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac ystyried ei ehangu i feysydd eraill Sector Cyhoeddus Cymru. Mae rhai o'r prosiectau hyn bellach yn cyflwyno ceisiadau am ffrydiau ariannu pellach sy'n eu galluogi i ddatblygu achosion busnes datblygedig.

Eleni (ail flwyddyn y gronfa), mae'r Cyngor yn rhan o sawl cynnig partneriaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynnwys ac ymrwymiad y cyhoedd. Ceir mwy o fanylion am y Gronfa Wella, ynghyd â manylion y prosiectau diweddaraf yn:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/improvementfund/?lang=cy>

Pennod 2

“Mae Uchelgais yn Hollbwysig” Strategaeth Gymunedol Abertawe

Gweledigaeth Abertawe

Mae'r Strategaeth Gymunedol yn dangos sut mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud Abertawe'n lle gwell ac mae'n amlinellu'r Weledigaeth hir dymor ar gyfer Abertawe:

Erbyn 2020 bydd Abertawe'n ddinas Ewropeaidd unigryw

- Dinas sy'n cymharu â'r goreuon
- Dinas sy'n buddsoddi yn y dyfodol
- Dinas lle mae pawb yn bwysig
- Dinas sy'n gwerthfawrogi ei diwylliant a'i threftadaeth

Yn ogystal â darparu uchelgais hir dymor i Abertawe, mae'r weledigaeth hon yn pennu pum Thema Strategol (gweler isod) a thri mater trawsbynciol sef Datblygu Cynaliadwy; Cynhwysiad Cymdeithasol / Gwrthdodi; Diwylliant a Threftadaeth. Mae'r strategaeth yn nodi sut gellir cyflawni gweledigaeth 2020 drwy ganolbwyntio ar y themâu strategol a materion trawsbynciol.

Y Pum Thema Strategol

“Mae Uchelgais yn Hollbwysig” hefyd yn amlinellu sut mae partneriaethau a chynlluniau allweddol yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy bum thema cynllunio cymunedol. Dyma'r camau gweithredu allweddol ar gyfer pob un o'r themâu ar gyfer 2007:

Themâu	Partneriaeth	Cynllun	Cam
Iechyd a Lles	Partneriaeth Her Iechyd Abertawe	Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	<p>Mae'r bartneriaeth yn cwblhau ei thrydydd cynllun gweithredu blynyddol ar hyn o bryd.</p> <p>Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, bydd hwn yn pennu camau gweithredu a ddyluniwyd i atal afiechyd, datblygu gwasanaethau cychwynnol a chymunedol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin mor agos at eu cartrefi â phosib, ail-fantoli gofal</p>

Themâu	Partneriaeth	Cynllun	Cam
			<p>eilaidd, hyrwyddo ailalluogi, gwella amddiffyn pobl hawdd eu niweidio a lleihau anghydraddoldebau.</p> <p>Bydd y bartneriaeth hefyd yn edrych ar sut gall gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty a chymunedol gael eu hail-lunio yn Abertawe i sicrhau ein bod yn darparu'r rhai mwyaf priodol.</p>
Dysgu	Partneriaeth Ddysgu Abertawe	Polisi a Strategaeth Dysgu Abertawe	<p>Mae Partneriaeth Dysgu Abertawe wedi nodi'r camau allweddol canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). ● Gwella lefel sgiliau sylfaenol ymysg pob oed, ● Cynyddu datblygiad y gweithlu a chyfranogiad cyflogwyr ymhellach a'r angen am ddarparu sgiliau cyflogadwyedd, ● Sicrhau cyfleoedd ar gyfer menter, entrepreneuriaeth, arloesedd a chreadigrwydd ar gyfer pob oed a datblygu sgiliau lefel uwch angenrheidiol ar gyfer cymdeithas wybodus, ● Datblygu ymagweddau blaengar fel bod mwy o bobl yn astudio technoleg a gwyddoniaeth, ● Datblygu sgiliau rheoli ac arwain lefel uwch.

Themâu	Partneriaeth	Cynllun	Cam
Ffyniant	Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe	Adfywio Economaidd strategaeth	<p>Mae Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe wedi nodi'r camau gweithredu allweddol canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Adolygu rhaglenni adfywio economaidd presennol a'r rheiny sydd ar y gweill yn Abertawe sy'n berthnasol i nodau a themâu strategol Abertawe 2020, ● Canfod ymhellach ddichonoldeb a chynnydd syniadau trawsffurfiol newydd a gyflwynir yn Abertawe 2020, ● Integreiddio strategaethau adfywio perthnasol eraill ag Abertawe 2020, ● Yn dilyn yr uchod, cwblhau cynllun gweithredu manwl a blaenoriaethu gweithgareddau sy'n ofynnol i roi Abertawe 2020 ar waith a'i ddatblygu, ● Datblygu fframwaith i fonitro a gwerthuso'r gweithgaredd rhoi ar waith.
Yr Amgylchedd	Partneriaeth yr Amgylchedd Abertawe	Amser i Newid - Strategaeth Amgylcheddol Abertawe	<p>Mae Partneriaeth yr Amgylchedd Abertawe wedi nodi'r camau allweddol canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Arddangosfa Y Ddaear o'r Awyr ac amrywiaeth o ddigwyddiadau cysylltiedig a gynhelir yn Abertawe ym mis Mehefin/ Gorffennaf 2007, ● Adroddiad dros dro ar gynnydd Strategaeth yr Amgylchedd a pharatoi diweddariad ar y Cynllun Gweithredu erbyn diwedd 2007, ● Menter Abertawe Gynaliadwy i gyflwyno rhaglen waith bellach i gefnogi nodau er mwyn gwneud Abertawe'n ddinas a sir mwy cynaliadwy.

Themâu	Partneriaeth	Cynllun	Cam
Diogelwch Cymunedol	Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel	Strategaeth Lleihau Troseddu	<p>Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi nodi'r camau gweithredu allweddol canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Lleihau ofn troseddu - bydd y bartneriaeth yn gweithio gyda swyddogion ymchwil i gynnal arolygon penodol ar ofn troseddu yn Abertawe, ● Cyflawni targedau lleihau troseddu heriol mewn meysydd allweddol - bydd partneriaid yn parhau i gwrdd yn rheolaidd, rhannu gwybodaeth, amlygu meysydd arbennig o bryder a chydweithio i fynd i'r afael â materion blaenoriaeth, ● Prif ffrydio mentrau llwyddiannus yn arbennig ym meysydd troseddau ceir, troseddau treisgar - bydd ymgyrch ymwybyddiaeth dinas gyfan ar droseddau ceir yn cael ei lansio. Bydd y bartneriaeth yn parhau â mentrau megis marsialiaid tacsis, gwydrau plastig, dosbarthu dŵr, rhybuddion cosb benodol a mwy yn ystod nosweithiau hwyr yng nghanol y ddinas.

Partneriaeth Gwell Abertawe

Mae sicrhau bod pawb yn gallu gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Abertawe yn her i Bartneriaeth Gwell Abertawe. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys asiantaethau allweddol Abertawe ac yn rhoi'r cyfle iddynt weithio'n well gyda'i gilydd. Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae Partneriaeth Gwell Abertawe'n casglu syniadau, yn adolygu'r cynnydd ac yn cymryd camau ymarferol tuag at gyrraedd nod Gwell Abertawe. Amcanion strategol Partneriaeth Gwell Abertawe yw;

- Arwain cyflawniadau gweledigaeth 2020 a rennir drwy bartneriaeth strategol Abertawe,
- Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwell drwy gyd-weithio rhwng sefydliadau allweddol i gynnwys "Creu'r Cysylltiadau",
- Mynd i'r afael â materion trawsbynciol sy'n effeithio ar ein cymunedau drwy ymagwedd gydgyssylltiedig a strategol,
- Cynnwys yr holl gymunedau, asiantaethau a sectorau yn natblygiad strategol Abertawe yn y dyfodol.

Cynllun Gweithredu Partneriaeth Gwell Abertawe

Penderfynodd Partneriaeth Gwell Abertawe, sef y grŵp trosgynnol ar gyfer Abertawe, ar ei blaenoriaethau ar gyfer 2006/2007 ym mis Ebrill 2006. Mae'r blaenoriaethau, a restrir yn Niweddariad y Strategaeth Gymunedol 2006, yn cael eu cyflwyno drwy;

- **Weithdai Strategol Partneriaeth Gwell Abertawe:** Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar faterion strategol allweddol ac yn ceisio dod o hyd i atebion ymarferol drwy ymagwedd draws-asiantaeth,
- **Nodyn Briffio Gwell Abertawe:** Cynhyrchir y nodyn briffio strategol hwn bob deufis er mwyn hysbysu pobl am y datblygiadau diweddaraf yn y themâu strategol, materion trawsbynciol a meysydd polisi cysylltiedig,
- **Tasglu Polisi Gwell Abertawe:** Grŵp o gydlynwyr polisïau a strategaethau yw hwn sy'n ceisio dod o hyd i atebion i bryderon a rennir,
- **Fforwm Rhanddeiliaid Gwell Abertawe:** Mae'r grŵp hwn yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau â diddordeb gan gynnwys grwpiau cymunedol, rhwydweithiau a fforymau. Ei nod yw cynnwys y rhanddeiliaid hyn wrth ddatblygu polisïau a strategaethau.

Mae'r tabl isod yn nodi cynnydd yn erbyn camau gweithredu penodol a gyflawnwyd drwy'r Bartneriaeth Gwell Abertawe, diweddarwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2007.

Cyflwyno	Perfformiad 06/07
Gweithdai Strategol Partneriaeth Gwell Abertawe	<p>Cynhaliwyd 6 gweithdy strategol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Canol y Ddinas ● Y Ddeddf Plant ● Yr Economi Wybodaeth ● Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ● Prosiect Pobl Hŷn ● Bwrdd Gwasanaeth Lleol
Nodyn Briffio Gwell Abertawe	<p>Lluniwyd a dosbarthwyd 6 nodyn briffio</p>
Tasglu Polisi Gwell Abertawe	<p>Lluniwyd 6 adroddiad yn dilyn gweithdai:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Trosolwg/Rhaglen Waith Cynulliad Cymru ● Rhoi ar waith ● Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ● Bwrdd Gwasanaeth Lleol ● Canlyniadau ● Llywodraethu <p>Mae aelodaeth y grŵp bellach yn cynnwys cydlynwyr polisïau Plant a Phobl Ifanc a Phobl Hŷn.</p>
Fforwm Rhanddeiliaid Gwell Abertawe	<p>Cynhaliwyd 2 fforwm yn 2006/07. Dyma'r pynciau a drafodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Y Ddeddf Plant ● Yr Economi Wybodaeth ● Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ● Bwrdd Gwasanaeth Lleol

Goruchwyliwyd cyhoeddi diweddariad 2007 "Mae Uchelgais yn Hollbwysig - Strategaeth Gymunedol Abertawe" gan Bartneriaeth Gwell Abertawe.

Blaenoriaethau Partneriaeth Gwell Abertawe

Mae'r Blaenoriaethau ar gyfer Partneriaeth Gwell Abertawe ar gyfer 2007/08 wedi'u nodi yn Niweddariad y Strategaeth Gymunedol ar gyfer 2007. Yn hanfodol, rhaid i Bartneriaeth Gwell Abertawe baratoi ar gyfer sefydlu Bwrdd Gwasanaeth Lleol Abertawe, Cytundeb Gwasanaeth Lleol Abertawe a Rhesymoli'r Cynllun.

Erbyn 2010, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynnu bod gan bob ardal leol **Fwrdd Gwasanaeth Lleol**. Nodwyd rôl a chylch gorchwyl Byrddau Gwasanaeth Lleol yn "Creu'r Cysylltiadau – Byrddau Gwasanaeth Lleol yng Nghymru 2007-2008". Lluniwyd Byrddau Gwasanaeth Lleol i gryfhau arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol er mwyn mynd i'r afael â heriau sylfaenol a rhai heb eu cyflawni o safbwynt dinasyddion yn hytrach na sectorau. Bydd Cytundebau Gwasanaeth Lleol yn nodi blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan bartneriaid lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhesymoli'r Cynllun, sef gostwng nifer y cynlluniau y mae'n rhaid i'r Cyngor a'i bartneriaid eu cynhyrchu yn ôl y gyfraith, i 4 cynllun yn unig sef; y Strategaeth Gymunedol, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Datblygu Lleol. Menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw hon i leihau'r baich ar Awdurdodau Lleol o ran nifer y cynlluniau statudol sy'n ofynnol gan y Cynulliad.

Datblygiadau ar gyfer 2007/2008

Eleni, mae Partneriaeth Gwell Abertawe yn ymroi llawer iawn o'i rhaglen waith er mwyn paratoi ar gyfer rôl Bwrdd Gwasanaeth Lleol Abertawe.

Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu:

- Paratoi ar gyfer cyflwyno Byrddau Gwasanaeth Lleol yn 2008.
- Gweithio tuag at gytuno ar flaenoriaethau lleol er mwyn cynnwys yn y Cytundeb Gwasanaeth Lleol.
- Cefnogi datblygu polisiâu a strategaethau allweddol i sicrhau ymagwedd gyson ac unedig.
- Sicrhau bod strategaethau a pholisiâu newydd pwysig yn ystyried ac yn cefnogi arweinwyr lleol mewn cymunedau.
- Sicrhau bod pawb yn cael gwybod am ddatblygiadau a chyfleoedd newydd.
- Gweithio i baratoi ar gyfer Rhesymoli Cynlluniau yn 2009.
- Integreiddio cynlluniau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a Phobl Hŷn o fewn y Strategaeth Gymunedol.
- Cefnogi datblygiad mentrau polisi cenedlaethol a rhanbarthol megis Cynllun Gofodol Cymru a mentrau Creu'r Cysylltiadau.
- Hybu rôl arweinwyr cymunedol lleol wrth gyflwyno gwasanaethau.
- Hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol wrth gyflwyno gwasanaethau i ddileu gwahaniaethu a thrin pawb yn deg yn unol â'u hanghenion.

- Hybu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sy'n hybu bodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau cyhoeddus.
- Cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu a chyflwyno strategaethau a mentrau allweddol.
- Cefnogi'r sectorau gwirfoddol a busnes yn effeithiol i gyfrannu at gyflwyno'r weledigaeth.
- Datblygu ymagwedd gydlynol tuag at gynnwys cymunedau lleol ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau a phartneriaethau Abertawe.

Mae'r ddogfen "Mae Uchelgais yn Hollbwysig – Creu Gwell Abertawe" a Diweddariad Strategaeth Gymunedol 2007 ar gael gan y Tîm Strategaethau Cymunedol. Gellir cysylltu â hwy ar

01792 636292, neu e-bostiwrch communitystrategies@swansea.gov.uk

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Partneriaeth Gwell Abertawe ar www.swansea.gov.uk/bsp

Pennod 3

Nodau ac Uchelgeisiau'r Cyngor

Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae bodloni anghenion dros 230,000 o drigolion a thua 100,000 o aelwydydd yn dasg gymhleth ac anodd yn aml i'r Cyngor. Ychwanegwch y nifer mawr o fusnesau sy'n gweithredu yn Abertawe a'r nifer uchel o ymwelwyr a thwristiaid sy'n ymweld ag Abertawe, yna mae'n hawdd deall pam mae angen i'r Cyngor adolygu a diweddarau ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy'r amser.

Mae disgwyliadau defnyddwyr a chwsmeriaid yn newid drwy'r amser. Mae pawb yn disgwyl gwasanaethau gwell, gwell mynediad i wasanaethau ac atebion prydlon i'n gofynion. Nid yw'r Cyngor yn wahanol i unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall o ran hyn. Yn ogystal, rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn bodloni ei oblygiadau statudol a chydymffurfio â gofynion llywodraeth ganolog, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynllun Cymunedol ac asiantaethau cysylltiedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae cydbwysu'r gofynion hyn yn erbyn cyllideb sy'n cael ei hariannu'n bennaf gan Grantiau'r Llywodraeth, Treth y Cyngor ac incwm arall yn gofyn i'r holl gynghorau gan gynnwys hwn i fod yn ddoeth ynghylch sut mae'n cynllunio ac yn rheoli gwasanaethau a chostau cysylltiedig y rhain. Mae cynllunio gwasanaethau'n ofalus yn elfen allweddol.

Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor hwn wedi datblygu ei ddulliau cynllunio ariannol a gwasanaethau i geisio sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu bodloni lle gallwn fforddio gwneud hynny. Serch hynny, bob blwyddyn mae'r Cyngor yn adolygu ei brif amcanion ac yn archwilio goblygiadau cyllideb cyn penderfynu ar yr hyn y gellir ei fforddio a'r hyn na ellir ei fforddio. Rhan annatod o'r broses hon yw "Asesu Risgiau" lle mae'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a'i wasanaethau'n cael eu hasesu a'u blaenoriaethu. Gellir cael mwy o fanylion ynghylch y broses hon ym Mhennod 5.

Yna mae Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu datblygu (gan adeiladu o gynlluniau blaenorol lle bo'n briodol) sydd yn eu tro'n cael eu defnyddio gan reolwyr a gweithwyr i sicrhau bod camau gweithredu'n anelu at gyflawni targedau a chyflwyno gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Mae Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u haddasu i sicrhau eu bod yn bodloni'r amrywiaeth o anghenion a goblygiadau. Yn ogystal, cynhelir arfarniadau perfformiad drwy gydol y Cyngor ac mae'r rhain yn cysylltu â'r Cynlluniau Gwasanaeth. Mae'r adolygiad a'r addasiad hwn yn rhan annatod o broses Cynllunio Gwasanaethau'r Cyngor sy'n dechrau gydag adolygu a datblygu'r Cynllun Corfforaethol.

Y Cynllun Corfforaethol

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn darparu trosolwg o Nodau ac Amcanion y Cyngor ac yn gosod cyd-destun ar gyfer gweithrediad yr holl wasanaethau. Gan weithredu dros gyfnod o 4 blynedd, mae'r Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2004/08 ("Gwell Gwasanaeth, Gwell Perfformiad") bellach hanner ffordd drwyddo. Mae'n cael ei adolygu'n flynyddol ac yn dilyn yr adolygiad ar ddiwedd ei ail flwyddyn, gwnaed nifer o newidiadau. Mae'r newidiadau hyn yn ceisio:

- Cadarnhau cyfeiriad y Cyngor.
- Ailddiffinio rhai o'r amcanion allweddol.
- Amcanion a mesurau llwyddiant mwy eglur.
- Cyflwyno cyfres o egwyddorion sylfaenol sy'n cyfeirio ein holl weithredoedd a gwasanaethau.

Wrth ddatblygu'r newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol, mae barn defnyddwyr, trigolion a gweithwyr wedi cael eu derbyn a'u hystyried. Yn wir, mae arolygon gyda'r cyhoedd wedi helpu i gadarnhau bod y diwygiadau i'r Cynllun yn adlewyrchu'n well yr hyn mae'r cyhoedd am ei weld a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y Cyngor.

Bellach, dechreuwyd ar waith o gyflwyno Cynllun Corfforaethol newydd yn 2008. Bydd hwn fwy na thebyg yn nodi cyfres o flaenoriaethau diwygiedig a llai, ac mae'n debygol y bydd ganddo ffocws pedair blynedd, gan symud y Cyngor ymlaen i 2012. Wrth ddatblygu'r cynllun newydd, bydd ymgynghori â thrigolion, defnyddwyr a gweithwyr yn hanfodol, yn ogystal ag ystyried agendâu cenedlaethol a lleol.

Mae Cynllun Corfforaethol 2004-08 yn cynnwys:

- Cenhadaeth y Cyngor – dyheadau hir dymor y Cyngor.
- Y nodau trosgynnol – sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau a ddarperir.
- Themâu strategol – sy'n disgrifio'r 5 prif agwedd y mae'r Cyngor hwn am eu datblygu a chanolbwyntio arnynt.
- Blaenoriaethau corfforaethol – darparu manylion ar gyfer pob un o'r Themâu Strategol.
- Mesurau llwyddiant – targedau i'w cyrraedd i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau.
- Egwyddorion sylfaenol – sy'n arwain ac yn hysbysu'r holl gamau gweithredu a gwasanaethau ar draws y Cyngor

Mae'r rhain yn cael eu trafod yn y tudalennau canlynol.

Cenhadaeth

Nid yw hi wedi newid sef:

Bydd y Cyngor hwn yn darparu gwasanaethau sydd ymysg y gorau yn y DU a bydd yn arwain cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Abertawe.

Nodau Trosgynnol

Rhoddwyd nod ychwanegol i adlewyrchu rhaglen e-Lywodraeth y Cyngor sydd wedi derbyn cyhoedduswydd helaeth. Y nodau trosgynnol yw:

- Darparu gwasanaethau o fewn y 25% uchaf o awdurdodau unedol cymaradwy'r DU.
- Gwella boddhad cwsmeriaid yn gyffredinol.
- Gweithredu fel un sefydliad.
- Arwain y gymuned a chysylltu â sefydliadau eraill.
- Drwy'r Rhaglen e-Lywodraeth, gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Themâu Strategol, Blaenoriaethau Corfforaethol a Mesur Llwyddiant

Helpu defnyddwyr gwasanaeth, trigolion a'n gweithwyr i gael darlun cliriach o'r prif feysydd gwaith a'r rhai pwysicaf y mae angen i'r Cyngor hwn ganolbwyntio arnynt. Mae hyn yn cael ei ddiffinio gan bum thema strategol. Mae'r themâu hyn hefyd yn union fel y rheiny sydd yng Nghynllun Cymunedol Abertawe.

Ar gyfer pob un o'r Themâu Strategol, mae'r Cyngor wedi diffinio nifer bach o Flaenoriaethau Corfforaethol. Mae'r rhain wedi mireinio'r blaenoriaethau hynny sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol gwreiddiol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyraeddadwy.

Mae gan bob Blaenoriaeth Gorfforaethol lefel uchel o nodau neu dargedau i'w cyflawni a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant y camau gweithredu.

Mae'r canlynol yn darparu manylion y Blaenoriaethau Corfforaethol a Mesurau Llwyddiant ar gyfer pob un o'r Themâu Strategol:

Thema Strategol	Ystyr
Y gymuned	Helpu cymunedau yn Abertawe i ddatblygu a ffynnu.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
1. Cynnal a datblygu cyfleoedd a gweithgareddau diwylliannol hygyrch, fforddiadwy a lleol	<ul style="list-style-type: none"> ● Darparu llyfrgell ganolog a chanolfan archifau newydd yn y Ganolfan Ddinesig newydd erbyn Mawrth 2008. ● Cynnal a datblygu lleoliadau diwylliannol i gyflawni cyfraddau boddhad cwsmeriaid uchel (h.y. cyrraedd 85% boddhad). ● Datblygu a rhoi Strategaeth y Celfyddydau newydd i Abertawe ar waith erbyn mis Ebrill 2008. ● Ailddatblygu Oriel Gelf Glynn Vivian erbyn 2010.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
<p>2. Arwain adfywio cymunedau lleol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynyddu'r defnydd o ganolfannau cymunedol ymysg trigolion lleol. ● Annog cyfranogiad gwirfoddolwyr a'u hannog i gymryd rhan yn eu cymuned. ● Dechrau marchnata safle cae'r Vetch erbyn mis Tachwedd 2007. ● Cyflwyno rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein cymunedau dynodedig. ● Datblygu Strategaeth Adfywio Cymunedol gynhwysol a chynhwysfawr - erbyn mis Chwefror 2008.
<p>3. Gwella'r stoc tai</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Gweithio tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.
<p>4. Gwella cyfleoedd i Blant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau defnydd cadarnhaol o hawliau a gwasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynyddu canran y cysylltiadau a wnaed gyda phlant a phobl ifanc a swm y gwaith gyda hwy. ● Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y fforwm ieuencid. ● Cynyddu nifer yr oriau cynlluniau chwarae achrededig. ● Cyflwyno Cynllun Gweithredu Pobl Ifanc Actif fel rhan o Strategaeth Dringo'n Uwch Abertawe "Bywiogi Bywydau" erbyn mis Mawrth 2008. ● Gweithio gyda mwy o bobl ifanc i gefnogi eu hymrwymiad gyda'r gymuned ac ynddi.
<p>5. Gyda'n partneriaid, lleihau troseddu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Llunio Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu cynnydd ar fodloni holl dargedau'r Swyddfa Gartref y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol. ● Erbyn yr hydref 2007, nodi a chyflwyno Cynllun Gweithredu Blynyddol ar y cyd â Phartneriaid sy'n canolbwyntio ar leihau troseddu (fel a nodwyd yn y targedau a drafodwyd gyda'r Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cynulliad Cymru), lleihau ofn troseddu a nodi arian allanol at ddibenion troseddu ac anhrefn a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn gyson. ● Adolygu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol erbyn hydref 2007.

Thema Strategol	Ystyr
Yr Amgylchedd	Diogelu a gwella amgylchedd Abertawe i bawb.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
1. Datblygu a rhoi'r Strategaeth Rheoli Gwastraff integredig ar waith.	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynyddu ailgylchu i 22% o'r holl wastraff. ● Cynyddu compostio i 10% o'r holl wastraff. ● Mynd ymlaen i gam Gwahodd i Draford wrth gaffael ateb trin gwastraff gweddilliol cynaliadwy.
2. Rhoi rhaglen trafndiaeth integredig ar waith gyda ffocws ar gludiant cyhoeddus.	<ul style="list-style-type: none"> ● Dechrau datblygu cyfnewidfa bysus modern, diogel a deniadol yn y Cwadrant. ● Cyflwyno blaenoriaeth bysus yn Nhreforys, Ffordd Fabian a Glandŵr. ● Cwblhau isadeiledd Cam 1 prosiect Metro Abertawe.
3. Diogelu a gwella ansawdd ein hamgylchedd adeiledig a naturiol.	<ul style="list-style-type: none"> ● Mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol a'i roi ar waith i reoli defnydd tir y dyfodol. ● Gwella'r amser a gymerir i bennu ceisiadau cynllunio i 70% o'r holl geisiadau o fewn 8 wythnos. ● Sicrhau arian a chefnogaeth ar gyfer parhau â menter Abertawe Gynaliadwy a 'Gŵyl y Dyfodol' enfawr a'u datblygu. ● Cyhoeddi a rhoi Cynllun Rheoli AoHNE a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar waith. ● Cynnal nifer y gwobrwyon Amgylcheddol/Ansawdd a gydnabyddir ac a gymeradwyir yn genedlaethol ar gyfer Parciau, Traethau a Mannau Agored - 18 gwobr erbyn 2008/9.
4. Amddiffyn y defnyddiwr drwy drefn ragweithiol yn seiliedig ar risgiau.	<ul style="list-style-type: none"> ● Sicrhau bod yr holl safonau statudol yn cael eu bodloni o ran pob gweithgaredd risg uchel. ● Paratoi ar gyfer rhoi'r Ddeddf Hapchwarae ar waith. ● Ymestyn y cynllun marsialiaid tacsis. ● Ymateb i strwythurau peryglus sydd ar gwmpo, ar yr un diwrnod.

Thema Strategol	Ystyr
Dysgu	Darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel i gefnogi lles cymdeithasol ac economaidd

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
1. Gwella perfformiad ysgolion.	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni: <ul style="list-style-type: none"> - 5 gradd A* - C i 52.7% erbyn 2008. - Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 i 74% yn 2008. - Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 i 58% yn 2008. ● Cyflawni cyfraddau presenoldeb o 90.15% ar gyfer ysgolion uwchradd a 92% ar gyfer ysgolion cynradd yn 2008. ● Datblygu Prifysgol y Plant ymhellach i achredu dysgu y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc dros y ddwy flynedd nesaf.
2. Gwella ansawdd cyffredinol darpariaeth addysgol ysgolion a'u hadeiladau.	<ul style="list-style-type: none"> ● Agor cyfleuster addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder Sbectwm Awtistig Gweithredu Uwch a Syndrom Asperger ym mis Medi 2007 gyda lleoedd ychwanegol arfaethedig ar gael ym mis Medi 2008. ● Agor safle West Cross ar gyfer ysgol Gymraeg derbyniad dosbarth a hanner erbyn mis Medi 2008. ● Cynnal arolwg o gyflwr yr holl ysgolion a sefydlu cynlluniau gwella. ● Datblygu menter 'Dechrau'n Deg' Llywodraeth y Cynulliad gan ddarparu ar gyfer pob plentyn ifanc dros y ddwy flynedd nesaf.
3. Gwella ansawdd ac ystod y cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bawb.	<ul style="list-style-type: none"> ● Sicrhau cytundebau "Dysgu Seiliedig ar Waith" gan LICC i alluogi isafswm i gofrestru bob blwyddyn. ● Cynyddu canran y dysgwyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth â chanlyniad cadarnhaol i 76% erbyn 2008/2009. ● Defnyddio'r rhaglen Dysgu'n Seiliedig ar Waith newydd ar gyfer pob oed i gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer dysgu galwedigaethol o 25 i 200 erbyn 2009.

Thema Strategol	Ystyr
Iechyd a Lles	Helpu'r holl drigolion a chefnogi cymunedau i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain a'i wella

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
1. Cefnogi pobl anabl a'r henoed i fyw bywydau annibynnol.	<ul style="list-style-type: none"> ● Ehangu amrywiaeth ac argaeledd gwybodaeth gyhoeddus am y gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau gwybodus a hybu cyfrifoldeb personol. ● Gwella'r broses cynnal asesiadau a'r ffordd y mae cefnogaeth yn cael ei threfnu a'i darparu. ● Cefnogi mwy o bobl i fyw yn eu cartrefi drwy fwyafu'r ddarpariaeth o gyfarpar priodol. ● Monitro nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi i drefnu a rheoli eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol. ● Rhoi rhaglen o newid ar waith ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hyn er mwyn caniatáu datblygiadau sy'n adlewyrchu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chyfeirio polisiau'n well. ● Cyflwyno pecynnau gofal priodol i leihau oedi ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty. ● Galluogi mwy o bobl gymwys i aros yn eu cartrefi yn hwy drwy ddyrannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i osod addasiadau priodol.
2. Amddiffyn plant ac oedolion hawdd eu niweidio.	<ul style="list-style-type: none"> ● Recriwtio 6 gofalwr maeth ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi plant sy'n hawdd eu niweidio. ● Sefydlu Bwrdd Amddiffyn Plant Lleol sy'n gweithredu'n dda.
3. Annog ffyrdd o fyw iach a chyfrifoldeb personol dros iechyd a lles.	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynyddu nifer yr ymweliadau â lleoliadau/gwasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth (h.y. cynnydd o 1%) ● Cyflwyno'r Strategaeth Dringo'n Uwch a Chynllun Gweithredu "Bywiogi Bywydau" erbyn mis Mawrth 2008. ● Darparu cyfleoedd ymarfer corff newydd i bobl 50 oed ac yn hyn i leihau nifer y cwympiadau a hybu lles corfforol a seicolegol. ● Agweddau iach i ddarparu gwybodaeth am iechyd a threfnu digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar 'faeth a gweithgaredd corfforol' gan alluogi archwilio cyfleoedd newydd sy'n ymwneud ag iechyd.

Thema Strategol	Ystyr
Ffyniant	Helpu Abertawe i ddod yn Ddinas Ewropeaidd ffyniannus sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
1. Gweithio gyda phartneriaid i adfywio Canol y Ddinas.	<ul style="list-style-type: none"> ● Lluio Cynllun Gweithredu Partneriaeth Canol y Ddinas erbyn mis Medi 2007. ● Cyflwyno Canolfan Hamdden newydd Abertawe erbyn mis Ionawr 2008. ● Cwblhau prosiect gwella craidd canol y ddinas i wella'r amgylchedd yng nghalon manwerthu'r ddinas erbyn mis Mehefin 2008. ● Dechrau ar waith i wella mynedfeydd marchnad Abertawe erbyn mis Gorffennaf 2007. ● Dechrau adeiladu cynllun manwerthu newydd ar Ffordd y Dywysoges yn ystod mis Gorffennaf 2008. ● Dewis datblygwr ar gyfer cynllun adfywio Dewi Sant/y Cwadrant a Stryd Paxton ym mis Rhagfyr 2007. ● Sefydlu menter ar y cyd â Chynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno Fframwaith Strategol Canol y Ddinas a chytuno ar gynllun busnes 5 mlynedd erbyn mis Rhagfyr 2007.
2. Cynnal datblygiad yr Economi Wybodaeth yn Abertawe.	<ul style="list-style-type: none"> ● Cwblhau Strategaeth yr Economi Wybodaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin erbyn mis Gorffennaf 2007 a chreu corff cyflwyno i roi'r camau gweithredu ar waith erbyn mis Rhagfyr 2007.
3. Helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n gweithio ar draws Abertawe.	<ul style="list-style-type: none"> ● Cefnogi gweithgareddau Partneriaeth Adfywio Abertawe a'i thimau cyflwyno wrth gyflwyno Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe - "Abertawe 2020". ● Arwain ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop a chreu Grŵp Cydgyfeirio o fwy nag un Cyngor erbyn mis Mehefin 2007.
4. Ymestyn cefnogaeth a hyrwyddo cyfleoedd i annog entrepreneuriaeth.	<ul style="list-style-type: none"> ● Helpu i greu 150 o fusnesau newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2008. ● Nodi gweithredoedd menter is-ranbarthol gyda phartneriaid erbyn mis Mawrth 2008. ● Cefnogi datblygu 25 menter gymdeithasol newydd a rhai presennol erbyn 2008. ● Cyflwyno rhaglen gyngor a chefnogaeth i'r gymuned fusnes sy'n cynnwys cefnogaeth cyn ac ar ôl dechrau gan gynnwys TGCh a gweithgaredd rhyngfasnachu gartref a thramor yn ystod 2007/08.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
5. Datblygu ac arwain y gwaith o roi Strategaeth Twristiaeth ar gyfer ardal Dinas a Sir Abertawe ar waith.	<ul style="list-style-type: none"> ● Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth Twristiaeth a'i chynllun gweithredu - eu cyflwyno o fis Ebrill 2007 tan 2012. ● Cyfrannu at themâu Hamdden / Diwylliant / Treftadaeth / Twristiaeth Proses Gynllunio Gofodol Cymru yn ystod 2007/08. ● Llunio Strategaeth Digwyddiadau Strategol i wella proffil y Ddinas erbyn mis Ebrill 2008.

Cefnogi Cyflwyno Gwasanaethau

Mae'r Cyngor a'i holl wasanaethau'n ymroddedig i gyflwyno gwasanaethau ardderchog. Gellir dim ond cyflawni hyn os yw'r gwasanaethau a'r swyddogaethau cefnogi o ansawdd uchel.

Darperir Gwasanaethau a Swyddogaethau Cefnogi'r Cyngor hwn gan y meysydd gwasanaeth canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Gwybodaeth a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
- Eiddo Corfforaethol
- Prosiectau Strategol
- Perfformiad a Chynllunio Strategol
- Cyfreithiol
- Caffael Strategol
- Cyllidebau a Grantiau
- Gwasanaethau Ariannol
- Cyfathrebu.

Mae'r tabl isod yn nodi amrywiaeth o Flaenoriaethau Allweddol ar gyfer y gwasanaethau cefnogi hyn ac yn nodi'r gwasanaethau hynny sy'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
<p>Gwella mynediad i wasanaethau drwy Cyswllt Abertawe</p> <p>Mae hyn yn cynnwys datblygu a chyflwyno'r Ganolfan Gyswllt yn y Ganolfan Ddinesig i gyflwyno cyswllt effeithiol a llyfn ar gyfer cwsmeriaid ar draws yr holl wasanaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Agor Canolfan Gyswllt newydd (fel rhan o'r Ganolfan Ddinesig) ym mis Medi 2007 i ddelio ag ymholiadau cyhoeddus wyneb yn wyneb. ● Agor Canolfan Alwadau gorfforaethol newydd i'w lansio yn 2008 er mwyn delio ag ymholiadau dros y ffôn. ● Gwella'r defnydd o'r wefan gorfforaethol i ddarparu gwybodaeth ac i gyrchu gwasanaethau.

Blaenoriaeth Gorfforaethol	Mesur Llwyddiant
<p><i>Parhau i wella ein rheolaeth gorfforaethol, perfformiad ac ariannol integredig gyda ffocws ar Perfformiad.Gorau2008.</i></p> <p>Mae hyn yn cynnwys datblygu ymagweddau cynllunio ariannol a chorfforaethol integredig ymhellach sy'n gysylltiedig â rheoli perfformiad cadarn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Parhau i wella'r ganran o ddangosyddion perfformiad sy'n dangos gwelliant. ● Cyhoeddi Strategaeth Ariannol tymor canolig gyda chysylltiadau clir i gyflwyno Blaenoriaethau Corfforaethol.
<p><i>Cyflawni rheoli asedau strategol yn effeithiol ac yn gorfforaethol.</i></p> <p>Mae'n ymwneud ag eiddo a thir ym meddiannaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o adeiladau gweithredol a sicrhau cyfraddau adennill gwell o'r portffolio eiddo ehangach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Rhaglen cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau heriol i sicrhau'r ffit gorau rhwng asedau gweithredol ac angen y gwasanaethau. ● Rhoi rhaglen waredu ar waith i gefnogi'r rhaglen gyfalaf ehangach. ● Herio targedau sy'n ymwneud â chynhyrchu refeniw gwell o asedau anweithredol. ● System TG Rheoli Asedau Gorfforaethol newydd
<p><i>Gwella gallu ac effeithlonrwydd ein gweithlu drwy arferion gwaith modern, hyfforddi a datblygu staff, rheoli prosiectau gwell, buddsoddi mewn technoleg a chyflawni safonau Buddsoddwyr mewn Pobl.</i></p> <p>Gweithlu'r Cyngor yw ei ased fwyaf. Mae sicrhau eu bod yn gallu cyflwyno eu rolau'n effeithiol ac yn effeithlon yn fater allweddol ar gyfer yr holl wasanaethau gyda'r Gwasanaethau Cefnogi'n darparu'r mecanweithiau i wneud hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Cwblhau'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd erbyn mis Hydref 2008, gan sicrhau bod system wobrwyo deg ar waith i'r holl weithwyr. ● Cwblhau adolygiad o'r amodau a'r telerau a pholisïau erbyn mis Mawrth 2008 i sicrhau bod y Cyngor yn cynnwys arferion gwaith modern ac effeithlon. ● Parhau i gynyddu nifer y gweithwyr sy'n rhan o'r Safon Buddsoddwyr mewn Pobl.
<p><i>Gwella effeithlonrwydd y Cyngor drwy brosesau busnes gwell, symleiddio gwasanaethau a buddsoddi mewn systemau Technoleg Gwybodaeth corfforaethol "swyddfa gefn".</i></p> <p>Fel sefydliad mawr a chymhleth, mae angen buddsoddi parhaus mewn gweithdrefnau a systemau i sicrhau bod y Cyngor yn addas at y diben ac yn bodloni galwadau'r 21ain ganrif.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Cwblhau rhoi'r System TG 'swyddfa gefn' newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2008. ● Cyflwyno effeithlonrwydd drwy brynu a chaffael nwyddau a gwasanaethau gwell gan ddefnyddio systemau a phrosesau busnes newydd. ● Cyflwyno gwelliannau i wasanaethau ac effeithlonrwydd drwy ddefnyddio systemau newydd, prosesau busnes a dulliau modern o weithio.

Egwyddorion Sylfaenol:

Mae holl wasanaethau a chamau gweithredu'r Cyngor yn cael eu cyflwyno a'u cynnal yn ôl 3 phrif egwyddor sylfaenol:

- **Gonestrwydd.**
- **Hygyrchedd.**
- **Cynladwyedd.**

Rydym yn dangos ein hymrwymiad i'r egwyddorion hyn yn y ffyrdd canlynol:

Gonestrwydd

- Cynnal ein trafodion yn agored ac yn onest.
- Gweithio gydag amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion i ddylunio a gwella gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor.
- Gweithio'n agored gyda'n sefydliadau partner i sicrhau cyflawni nodau cyffredin.

Mae'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r egwyddor hon yn cynnwys;

- Sicrhau bod yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a'u cofnodion ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cwestiynau cyhoeddus, deisebau a chyflwyniadau yn y Cyngor.
- Mae aelodau grwpiau trawsbleidiol, Grŵp Abertawe Agored sy'n cynnal wythnos Democratiaeth Leol bob blwyddyn, yn ymgynghori â grwpiau a rhwydweithiau allweddol ac maent wedi ymgymryd ag adolygiad corfforaethol o Gyfranogiad Cymunedol yn ddiweddar.
- Mae amrywiaeth o bartneriaethau a fforymau, gan gynnwys Partneriaeth Gwell Abertawe a phartneriaethau strategol eraill wedi'u cynnwys ym Mhennod 2.

Hygyrchedd

- Gwerthfawrogi ein holl gwsmeriaid a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn effeithlon ac yn gwrtais.
- Sicrhau triniaeth deg a chyfiawn ar gyfer ein holl gwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion.
- Prif ffrydio camau gweithredu a pholisiau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r egwyddor hon yn cynnwys;

- Strategaeth a Siarter Gwasanaethau i Gwsmeriaid, argaeledd Llinell Iaith a phroses cofnodi digwyddiadau o gasineb ac aflonyddu.

- Cyngor ac arweiniad ar faterion megis Trefnu Cyfarfodydd a Chynadleddau i Bawb, Derbynfeydd Cyhoeddus, Cyfathrebu etc.
- Gweithgor Corfforaethol Mynediad i Wasanaethau a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb a chynllun yr Iaith Gymraeg.
- Ymgymryd ag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar swyddogaethau, polisiau a gweithdrefnau'r Cyngor, eu cyhoeddi a monitro ac adrodd am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn flynyddol.
- 'Cyswllt Abertawe' - Bydd menter Cyswllt Abertawe'n creu Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid.
- Cofnodir panel y dinasyddion, arolwg canol y ddinas, arolygon eraill, grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau mewn banc gwybodaeth o ymgynghoriadau a chyfranogiadau.
- Cynhelir rhwydwaith 50+ gyda 350 o sefydliadau gwirfoddol a thros 800 o unigolion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau, gweithdai a grwpiau ffocws.
- Gweithio gydag amrywiaeth o weithgorau, sefydliadau gwirfoddol a fforymau yn y meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

Cynladwyedd

- Sicrhau bod ein holl weithredoedd a'n polisiau'n gynaliadwy, drwy gynnwys nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r egwyddor hon yn cynnwys;

- Datblygu Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Corfforaethol i gynnwys yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yng ngwaith y Cyngor.
- Ymgymryd ag arfarniadau cynladwyedd ar ddogfennau polisiau allweddol.
- Nodi camau gweithredu i wneud ein caffael yn fwy cynaliadwy.
- Parhau i nodi ffyrdd y gall cynllunio perfformiad a gwasanaethau gefnogi amcanion cynaliadwy.

Mae'r 5 thema a amlinellir yn y Cynllun Cymunedol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Gwella yn cyfrannu at weledigaeth hir dymor y Cyngor ar gyfer Abertawe. Mae'r Cynllun Gwella'n rhoi gwybodaeth am y fframwaith perfformiad a ddefnyddir i fesur a dadansoddi cynnydd tuag at y weledigaeth hon.

Pennod 4

Cyflawniadau a Chamau Gweithredu

Fel Cyngor, rydym yn canolbwyntio ar fethiannau a phroblemau'n aml heb roi lawer o sylw i ddathlu llwyddiant. Byddai ein perfformiad yn gwella'n sylweddol pe baem yn gallu sicrhau bod llwyddiant yn cael ei gofnodi a'i gydnabod.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn adolygu ei gyflawniadau o'r flwyddyn flaenorol er mwyn cyfeirio camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fel arfer, byddai camau gweithredu'n cynnwys gwelliannau i wasanaethau, prosiectau a chynlluniau ac maent oll yn hanfodol i gyflwyno gwasanaethau i gwsmeriaid.

Diben y bennod hon yw rhoi trosolwg o rai o gyflawniadau'r llynedd ynghyd â chrynodeb o'r camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (2007/08). Er hwylustod darllen, mynegwyd hyn ar draws y themâu strategol a nodwyd yn y bennod flaenorol.

Y GYMUNED

Beth rydym wedi ei gyflawni

- **Y Ganolfan Ddinesig** - mae elfen gyntaf y prosiect hwn, y Ganolfan Gyswllt a'r Ganolfan Archifau newydd, wedi'i chwblhau ar amser. Bydd y Ganolfan Gyswllt a'r Ganolfan Archifau'n agor ym mis Medi.
- **Amgueddfeydd** - diolch i'r arddangosfeydd creadigol a gafwyd, mae Amgueddfa Abertawe, Canolfan Dylan Thomas ac Oriol Gelf Glynn Vivian wedi rhagori ar eu targed ymwelwyr blynyddol cyfunol o 320,000 o bobl gan 44,261.
- **Parc Brynmill** - mae Pafiliwn Bowls hanesyddol parc cyhoeddus hynaf Abertawe wedi'i adnewyddu'n llwyr fel rhan o gynllun adfer y parc, gwerth £1.3 miliwn. Yn ogystal, agorwyd yr ardal chwarae newydd i'r cyhoedd.
- **Theatr y Grand** - torrwyd y marc £3 miliwn o ran derbyniadau'r swyddfa docynnau am y tro cyntaf mewn 110 o flynyddoedd. Cynrychiolai hyn gynnydd o saith y cant mewn incwm ar y flwyddyn ariannol flaenorol, gan olygu bod dros 257,000 o bobl wedi defnyddio'r cyfleuster yn ystod y flwyddyn.
- **Llyfrgell St Thomas** - agorwyd y cyfleuster newydd hwn fel rhan o brosiect Ysgol Gymunedol newydd St Thomas.
- **Mynd i'r afael â thlodi** - lanswyd y prosiect 'Pontio'r Bwlch Polisi' sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi plant. Abertawe yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn yr amcan Undeb Ewropeaidd pwysig hwn.
- **Derbyn Budd-daliadau** - drwy ein hymgyrch derbyn budd-daliadau lwyddiannus, rydym wedi helpu 460 o drethdalwyr ychwanegol i hawlio budd-daliadau a lleihau neu ddileu eu taliadau.

- **Gwelliannau Tai** - clustnodwyd £10 miliwn o dan y rhaglen gyfalaf flynyddol i ymgymryd ag atgyweiriadau a gwelliannau i dai'r cyngor, sy'n ein cynorthwyo i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- **Troseddu Ieuencid** - enwyd Tim Troseddu Ieuencid a arweinir gan y Cyngor, sydd ar ei chweched blwyddyn, y gorau yng Nghymru am leihau troseddu ac ail-droseddu mewn partneriaeth â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau iechyd ac addysg. Mae'r tim hefyd yn yr ail safle yng Nghymru a Lloegr ac mae'n gweithio i atal pobl ifanc rhag troseddu.
- **Mynd i'r afael â graffiti** - gwaredu 95% o'r holl graffiti sy'n flaenoriaeth o fewn 7 niwrnod ac ymgymryd â nifer o raglenni dargyfeirio, megis darparu wal graffiti, atal pobl rhag paentio graffiti i ddechrau.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud

- **Y Ganolfan Ddinesig** - parhau i greu caffi newydd, man arddangos ac adnewyddu'r cyntedd canolog. Disgwylir i'r gwaith hwn bara tan ddiwedd mis Ionawr 2008. Eifen derfynol y prosiect fydd creu Llyfrgell Ganolog newydd yn y Ganolfan Ddinesig a bydd wedi'i chwblhau ym mis Mawrth 2008.
- **Llyfrgell Gorseinon** - ailddylunio ac adnewyddu'r llyfrgell erbyn diwedd yr hydref.
- **Cyfadeilad Tai Hazel Court** - mae'r cyfadeilad tai modern hwn ar gyfer pobl hŷn, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Tai i Deuluoedd, ar y gweill a disgwylir iddo gael ei chwblhau erbyn haf 2008.
- **Cae'r Vetch** - trawsnewid safle Cae'r Vetch yn ddatblygiad tai cynaliadwy modern gan gynnwys canolfan gymunedol fodern yn dilyn cymeradwyo'r cynnig i ailddatblygu'r ardal hon.
- **Canolfan Gorseinon** - gyda'n partneriaid, parhau i adeiladu'r neuadd aml-ddefnydd newydd hon ar gyfer trigolion Gorseinon ar hen safle gwaith dur Bryngwyn.
- **Parc Brynmill** - parhau i adeiladu'r ganolfan ddarganfod yn y parc a fydd yn ffocws addysg sy'n ymwneud â bywyd gwyllt y parc gan gynnwys ciosg a thoiledau.
- **Budd-dâl Tai** - cyflwyno'r cynllun Lwfans Tai Lleol newydd a fydd yn disodli'r cynllun Budd-daliadau Tai presennol ar gyfer tenantiaid preifat.
- **Strategaeth Adfywio Cymunedol** - llunio Strategaeth Adfywio Cymunedol a chynllun gweithredu erbyn dechrau 2008, gyda'n partneriaid, er mwyn adfywio ein cymunedau lleol.
- **Tegwch Economaidd** - cytuno ar gynllun gweithredu cydlynol erbyn hydref 2007 i gyflawni nodau tegwch economaidd Abertawe 2020, y Strategaeth Adfywio Economaidd.
- **Diwylliant a Hamdden** - cytuno ar Strategaeth y Celfyddydau erbyn gwanwyn 2008 a fydd yn sicrhau bod celf yn cael ei defnyddio i'r eithaf yn y ddinas a bod rôl hanfodol celf a diwylliant fel ysgogwr adfywio'n cael ei chydabod. Datblygu Neuadd Bowls erbyn hydref 2007 a bwrw ymlaen ag ailddatblygu Oriol Gelf Glynn Vivian, sy'n gobeithio gwella mynediad a gwasanaethau a chodi proffil Dinas a Sir Abertawe ymhellach fel lle i fyw ac ymweld ag ef erbyn 2010.

YR AMGYLCHEDD

Beth rydym wedi ei gyflawni?

- **Ailgylchu** - parhau i gynyddu cyfanswm y tunelledd gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu o 28,432 tunnell yn 2005/06 i 29,910 tunnell yn 2006/07. Yn yr un modd, mae cyfanswm tunelledd gwastraff dinesig a gompostwyd neu a gafodd ei drin yn fiolegol hefyd wedi cynyddu o 10,808 tunnell yn 2005/06 i 11,030 tunnell yn 2006/07. Sicrhau bod 100% o aelwydydd yn derbyn casgliad ymyl ffordd sy'n casglu tri pheth neu fwy i'w hailgylchu. Mae'r holl ganlyniadau hyn yn gosod Abertawe yn y chwarterl perfformiad uchaf yng Nghymru.
- **Gwastraff Tirlenwi** - parhau i leihau'r ganran o wastraff dinesig bioddiraddadwy a anfonir i'w dirlenwi o 72.8% yn 2005/06 i 66.32% yn 2006/07. Mae'r canlyniad hwn yn gosod Abertawe yn y chwarterl perfformiad uchaf yng Nghymru.
- **Glendid** - prynwyd saith peiriant glanhau main er mwyn glanhau'r ddinas gyfan yn fwy effeithlon a diogel.
- **System Fetro Abertawe** - cwblhawyd Cam 1 y prosiect gwella trafndiaeth newydd arloesol hwn drwy ail-lunio llif traffig canol y ddinas. Dechreuwyd ar Gam 2 i wella Ffordd y Gorllewin yn Abertawe. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, dylai'r system newydd gael ei chyflwyno yn hwyr yn 2008.
- **Ffyrdd** - clustnodwyd £4 miliwn i'w wario ar brif lwybrau Abertawe. Mae hyn yn rhan o'r rhaglen pum mlynedd gyfredol sy'n ceisio cynnal 150km o ffyrdd a 50km o lwybrau.
- **Trafnidiaeth** - enwyd Abertawe fel yr Awdurdod Lleol sydd wedi Gwella Orau yng Nghymru o ran Trafnidiaeth yng Ngwobrau Trafnidiaeth Cymru. Roedd hyn yn cydnabod y tri safle parcio a theithio a darparu'r gwasanaeth Gower Explorer.
- **Pontydd** - gosodwyd y bont dirnod newydd dros Ffordd Fabian. I gyd-fynd â'r Hwylbont ar y Marina, bydd y bont newydd hon yn cludo bysus parcio a theithio gan ffurfio llwybr cyflym newydd a hefyd bydd yn rhan o'r llwybr beicio Celtaidd ac yn gyswllt i gerddwyr.
- **Sbwriel** - yn dilyn cydweithio rhwng adrannau'r Amgylchedd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, lluniwyd prosiect pilot gan Dim Gweithredu Amgylcheddol Cymdogaethau (NEAT) i ddarparu gwaith ystyrlon ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, tra hefyd yn glanhau ardaloedd o'r ddinas a'r sir na fyddent yn cael eu glanhau fel arall. Hefyd, recriwtwyd tîm o Swyddogion Strydlu gyda'r pŵer i roi cosb benodol o £75 i unrhyw un sy'n gollwng sbwriel ar strydoedd Abertawe.
- **Bioamrywiaeth** - bellach ymgymeirir â Dyletswydd Bioamrywiaeth yn unol â deddfwriaeth newydd a fydd yn ychwanegu at rôl allweddol yr awdurdod wrth alluogi cenedlaethau i elwa ar yr hyn oll sy'n gwneud yr ardal hon yn arbennig. Mae'r rôl yn datblygu strategaeth bresennol y cyngor ar Hybu Amgylchedd Naturiol Abertawe.
- **Parcio a Theithio** - cyflwynwyd trydydd gwasanaeth parcio a theithio yn Fforestfach sydd wedi cynyddu nifer y ceir sy'n defnyddio'r gwasanaethau parcio a theithio i 267,827 yn ystod 2006/07.
- **Parciau, Mannau Agored a Thraethau** - enillwyd 17 gwobr ansawdd/amgylcheddol a gydnabyddir ac a gymeradwyir yn genedlaethol ar gyfer parciau, manau agored a thraethau yn ystod 2006/07 yn erbyn targed o 12.

- **Prosiect CYNLLUNIAU WISE** - bu'r Uned Datblygu Cynaliadwy'n gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr o'r Eidal, Sweden a Sbaen ar brosiect 2 flynedd "CYNLLUNIAU WISE" a ariennir yn rhannol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r prosiect yn galluogi'r partneriaid i rannu arfer gorau a llunio cynlluniau gweithredu ar gyfer "cymunedau ynni cynaliadwy". Nod y Cynllun Gweithredu dros Ynni Cynaliadwy (SEAP) yw dod o hyd i ffyrdd o leihau'r defnydd o danwyddau ffosil.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

- **Diogelwch Canol y Ddinas** - ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno rhengoedd tacsis newydd yn ardal Stryd y Gwynt i sicrhau amgylchedd mwy diogel i ymwelwyr â'r ardal.
- **Rheoliadau Smygu Newydd** - archwilio adeiladau busnes i wirio a ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Mangreuedd Di-fwg (Cymru) newydd ac ymchwilio i gwynion o fewn 3 diwrnod gwaith.
- **Diogelwch Bwyd** - datblygu polisi gorfodi cyfraith bwyd newydd yn unol â "Gweledigaeth Newydd" ASB ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd.
- **Rheoli Gwastraff** - paratoi cynllun gweithredu i arallgyfeirio gwastraff o dirlenwi yn unol â thargedau LICC a hefyd dechrau ar y broses o leihau faint o wastraff bioddiraddadwy sy'n cael ei dirlenwi drwy ymestyn y cynllun ymyl ffordd i gynnwys compostio gwastraff gardd. Parhau â'r broses gaffael i gael ateb i sut i drin gwastraff gweddilliol.
- **Ailgylchu** - gwella trefniadau ailgylchu ar gyfer dinasyddion a busnesau drwy dreialu cynllun cardbord ymyl y ffordd gydag eiddo domestig ac ymestyn y cynllun casglu gwastraff gwyrdd wrth ymyl y ffordd.
- **Cynllunio** - parhau i weithio tuag at fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol a hefyd parhau i wella'r Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio er mwyn bodloni targedau arfaethedig ar gyfer penderfynu ar geisiadau sylweddol, bach, cartrefi ac eraill.
- **Canol y Ddinas** - ailddatblygu gorsaf fysis y Cwadrant yn ystod 2008.
- **Cludiant Teithwyr** - cwblhau llwybrau bysus cyflym o safleoedd parcio a theithio Glandŵr a Ffordd Fabian.
- **System Fetro** - paratoi isadeiledd Metro Abertawe ar Ffordd y Gorllewin/Canol y Ddinas/Neuadd y Sir.
- **Diogelwch Ysgolion** - cyflwyno ceisiadau presennol a nodi ceisiadau newydd ar gyfer Llwybrau Diogel i'r Ysgol.
- **Priffyrdd** - rhoi rhaglen 5 mlynedd o wella ffyrdd deuol a throedffyrdd, cynnal waliau cynnal a phontydd ar waith, a chynnal a diweddarau cyfarpar Arwyddion Ffyrdd.
- **Priffyrdd** - archwilio'r posibiliadau o sicrhau partner strategol ar gyfer gwaith ar y Briffordd erbyn mis Ebrill.
- **Diogelwch Ffyrdd** - ailddiffinio'r Cynllun Diogelwch Ffyrdd erbyn mis Mawrth 2008.
- **Parciau, Mannau Agored a Thraethau** - parhau i ennill gwobrau ansawdd/amgylcheddol a gydnabyddir ac a gymeradwyir yn genedlaethol, gan gynnwys 4 gwobr Baner Werdd yn ystod 2007/08.

- **Glanhau** - cyflwyno ymagwedd gymdogaeth newydd at lanhau strydoedd - Strydlun - sef defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac ymateb yn fwy effeithiol i alwadau'r cymunedau.
- **Safle tirlenwi Tir John** - cwblhau gwaith ar y safle er mwyn gallu aildechrau gwaredu gwastraff gyda'r nod o adfer y safle cyfan.

DYSGU

Beth rydym wedi ei gyflawni?

- **Presenoldeb Ysgolion** - roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ar gyfer hydref 2005 a haf 2006 i fyny ar y blynyddoedd cynt. Er gwaethaf pwl o fflw B yng ngwanwyn 2006 a arweiniodd at absenoldebau disgyblion hwy nag arfer oherwydd salwch, cynyddodd presenoldeb uwchradd Abertawe o'r 15fed safle i'r 14eg ymhlith y 22 awdurdodau yng Nghymru. Cynhaliwyd presenoldeb ysgolion cynradd yn y 15fed safle allan o 22. Mae'r duedd gynyddol gyffredinol mewn presenoldeb yn parhau yn arbennig yn y sector uwchradd ac ymysg mentrau amrywiol, mae hyn hefyd yn adlewyrchu llwyddiant y tim prosiectau Gwella Presenoldeb.
- **Cyfnod Allweddol 3 (14 oed)** - dangosodd y dangosydd pwnc craidd (DPC), ar gyfer asesiadau Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg mamiaith ar y cyd, fod Abertawe'n gwella o gymharu ag awdurdodau Cymreig eraill.
- **Dysgu** - datblygwyd Polisi a Strategaeth Dysgu Abertawe. Mae'n ceisio gwella cyfranogiad, cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad, gwella ansawdd a chefnogi datblygu cynaliadwy.
- **Gwaharddiadau** - mae gwaharddiadau tymor penodol mewn ysgolion uwchradd yn dechrau lefelu a cheir tystiolaeth fod nifer y disgyblion sy'n cael eu heithrio'n dechrau gostwng wrth i ysgolion a'r awdurdod lleol gyd-weithio i ddod o hyd i fesurau eraill er mwyn delio â disgyblion. Mae Abertawe'n parhau i fod yn y 18fed safle sef y safle uchaf ar gyfer awdurdod dinesig yng Nghymru. Mae gwaharddiadau parhaol yn parhau i amrywio ond roedd y rhif yn isel eleni. Mae Abertawe'n parhau i fod yn y 10fed safle o ran awdurdodau sy'n cofnodi ystadegau yng Nghymru.
- **Dysgwyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth** - mae canran y dysgwyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth gyda chanlyniad cadarnhaol wedi cynyddu o 72.1% i 82% o ganlyniad i gyflwyno hyfforddiant sgiliau allweddol yn gynnwys ar gyfer yr holl hyfforddeion ynghyd â gwelliannau eraill.
- **Diogelwch Plant** - rydym wedi cyflwyno menter beicio'n ddiogel yn ysgolion cynradd Abertawe, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, sy'n rhoi hyfforddiant beicio i blant ar ffyrdd ffug i gynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion diogelwch.
- **Ysgol Gynradd St Thomas** - Agorwyd yr ysgol fodern gwerth £6.7 miliwn. Mae'n cynnwys llu o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys llyfrgell newydd.
- **Prifysgol y Plant** - Datblygwyd Prifysgol y Plant, sy'n achredu dysgu y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc.

- **Nant-y-Felin** - byddwn yn bwrw ymlaen i greu cartref newydd i Dŷ West Cross yn y cyfleuster newydd, Nant-y-Felin, ym Mlaenymaes
- **Mentro Allan** - ymestyn y cynllun Mentro Allan i ddarparu ymarfer corff a chyfleoedd am weithgareddau penodol i ofalwyr yn y gymuned.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

- **Cyflawniadau Addysgol** - byddwn yn parhau i wella cyflawniadau TGAU ac yn y Cyfnodau Allweddol.
- **Presenoldeb mewn ysgolion** - byddwn yn parhau â'r fenter gwella presenoldeb drwy ganolbwyntio ar y Cynllun Cefnogi Ymddygiad.
- **Hyfforddiant Cyflogaeth** - byddwn yn cynyddu canran y bobl sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth gyda chymhwyster a/neu ganlyniad cadarnhaol arall i 71% erbyn 2007/08.
- **Ysgol Penyrheol** - dechreuir ailadeiladu'r ysgol ym mis Mawrth 2008 gyda'r agoriad arfaethedig ym mis Medi 2009.
- **YGG Llwynderw** - byddwn yn dechrau adeiladu'r ysgol gynradd Gymraeg newydd gwerth £6 miliwn ar safle Tŷ West Cross.
- **Ysgol Gynradd Hendrefoelan** - bydd meysydd chwarae, llwybrau cerdded a ffensys yr ysgol yn cael eu diweddarau sy'n werth £38,000.
- **Cynnal a Chadw Adeiladau** - cynnal amryw o brosiectau gwella adeiladau er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad.
- **Iechyd Plant** - gyda'n partneriaid yn y Gwasanaethau Iechyd, byddwn yn rhoi'r Strategaeth Bwyd ac Iechyd yn ysgolion Abertawe ar waith tan 2013, sy'n gosod ysgolion wrth wraidd hybu maeth da gydol oes.
- **Trefniadaeth Ysgolion** - byddwn yn parhau i lunio strategaeth yn ôl rhaglen trefniadaeth ysgolion a rheoli asedau hir dymor er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a geir gan niferoedd disgyblion llai a hen adeiladau ysgolion.
- **Addysg Gymraeg** - bydd Is-gynllun Addysg Gymraeg yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn y Cynllun Addysg Gymraeg tan 2011.
- **Dysgu** - byddwn yn cyflwyno Strategaeth Dysgu Abertawe ac yn sicrhau y cytunir ar y blaenoriaethau, bod digon o adnoddau ar eu cyfer a'u bod yn cael eu cyflwyno, a hefyd bod safonau cyrhaeddiad a chyflawniad yn cael eu codi.
- **Dysgu Gydol Oes** - byddwn yn rhoi'r Rhaglen Dysgu fel Teulu (ysgolion a'r gymuned), y Rhaglen Sgiliau Sylfaenol a Rhaglen Partneriaeth Sgiliau Abertawe ar waith.
- **Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau** - mae gan Amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau rôl hanfodol wrth ysbrydoli dysgu ar draws y gymuned. Rhoi'r fframwaith Ysbrydoli Dysgu i Bawb (YDB) ar waith ar draws amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r archifau erbyn haf 2008 er mwyn iddynt allu ymateb i'r datblygiadau diweddaraf mewn dysgu ac addysgu a datblygu eu gwasanaethau mewn ffyrdd blaenllaw.

IECHYD a LLES

Beth rydym wedi ei gyflawni?

- **Gohirio trosglwyddo gofal** - mae'r gyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed ac yn hŷn eto wedi rhagori ar y targed a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi gwneud hynny hefyd yn 2005/06.
- **Gofal 1 i 1** - yn dilyn cynllun peilot yn 2006, mae ail don wedi dechrau darparu gwasanaethau maethu'n lleol, gan osgoi lleoliadau y tu allan i'r ardal drwy ddarparu gofalwyr cyflogedig ar gyfer y cynllun.
- **Nant-y-Felin** - dechreuwyd ar y gwaith ar gyfer prosiect y cartref i blant ym Mlaenymaes.
- **Nofio** - parhawyd â'r cynllun nofio am ddim ar gyfer y rheiny dros 60 oed ac o dan 16 oed, ac o ganlyniad mae niferoedd di-ri wedi dechrau nofio wrth i'r fenter fynd o nerth i nerth ar draws y Ddinas.
- **Cyfyngiadau Cyflymder Is** - cyflwynwyd cyfyngiadau cyflymder is o 20 mya mewn mwy na 130 o strydoedd a ffyrdd ar draws Abertawe, y mae llawer ohonynt o amgylch ysgolion.
- **Diogelwch Plant** - cymeradwywyd cyllid grant Diogelwch Ffyrdd ar gyfer 2007/08 a fydd yn gwella'r amgylchedd i blant sy'n cerdded i'r ysgol ac oddi yno ac ariennir Clwb Diogelwch Ffyrdd Iau a Pass Plus Cymru.
- **Gofal plant** - mae perfformiad yr awdurdod yn 2006/07 o ran sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod wedi gosod Abertawe yn y Chwarterl Perfformiad Uchaf yng Nghymru.
- **Digartrefedd** - roedd perfformiad o ran nifer cyfartalog y diwrnodau y mae pobl ddigartref yn eu treulio mewn llety dros dro a nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng cyflwyniadau digartrefedd a chyflawni dyletswyddau o ran y rheiny sy'n statudol ddigartref, wedi gosod Abertawe yn y Chwarterl Perfformiad Uchaf yng Nghymru.
- **Cefnogaeth Tai** - gwariwyd £5.8 miliwn drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar addasiadau er mwy galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnodau hwy. Rydym hefyd wedi darparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi i denantiaid y Cyngor drwy'r Uned Cefnogi Tenantiaethau er mwyn eu galluogi nhw i gynnal eu tenantiaethau.
- **Agweddau Iach** - ffurfiwyd y prosiect Agweddau Iach i ddarparu gwybodaeth am iechyd a threfnu digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar 'faeth a gweithgaredd corfforol' gan alluogi pobl i archwilio cyfleoedd newydd sy'n ymwneud ag iechyd.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

- **Gofalwyr Maeth** - parhau â'r cynllun gofalwyr maeth 1 i 1 yn ystod 2007/08, gan gynyddu nifer y gofalwyr maeth er mwyn gallu darparu mwy o leoliadau "mewnol" a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn mwy na dau leoliad y flwyddyn.
- **Plant diamddiffyn** - datblygu cynllun gweithredu eang sy'n gwahodd arbenigwyr allanol i gyflwyno rhaglen er mwyn gwella recriwtio a chadw staff ac amddiffyn plant.
- **Pobl Hÿn** - byddwn yn parhau i roi rhaglen o newid ar waith ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hÿn er mwyn caniatáu datblygiadau sy'n adlewyrchu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chyfeiriad polisiau'n well gyda phwyslais ar hybu lechyd a Lles ac Annibyniaeth.
- **Ail-Iunio Gwasanaethau Iechyd yn Abertawe** - moderneiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (mewn partneriaeth) gan ddefnyddio gofal cymunedol a ailddatblygwyd fel elfen hanfodol o brosiect ysbyty un safle.
- **Plant sy'n derbyn gofal** - ceisio parhau yn chwarterl uchaf Awdurdodau Cymru o ran sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal.
- **Oedi wrth drosglwyddo gofal** - ceisio efelychu'r llynedd drwy ragori ar y targed unwaith eto er mwyn sicrhau bod cleifion yn dychwelyd adref neu i gyfleuster priodol arall cyn gynted â phosib.
- **Mynediad** - gwella mynediad i Amgueddfa Abertawe, Neuadd y Ddinas a Llyfrgell Ystumllwynarth, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, a fydd yn ein helpu i fodloni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- **Gweithgareddau Corfforol** - cyflwyno Strategaeth Gweithgareddau Corfforol Dringo'n Uwch "Bywiogi Bywydau" erbyn mis Mawrth 2008 er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol rheolaidd i wella iechyd a lles.
- **Cynllun Cyfeirio gan Feddygon Teulu** - ehangu'r cynllun cyfeirio gan Feddygon Teulu "Camau Cadarnhaol" mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd Lleol i annog ailsefydlu drwy ymarfer corff.

FFYNIANT

Beth rydym wedi ei gyflawni

- **Fframwaith Canol y Ddinas** - yn dilyn lansio Fframwaith Canol y Ddinas ym mis Mawrth, cafodd dau gyfle datblygu allweddol eu marchnata. Y cyntaf o'r rhain oedd ardal Dewi Sant/y Cwadrant a safleoedd Stryd Paxton a maes parcio dwyreiniol Neuadd y Sir. Yr ail oedd safle'r Hwylbont ger Canolfan Dylan Thomas. Mae'r ddau safle wedi denu diddordeb digynsail gan ddatblygwyr.
- **Cynllun Gwella Amgylchedd Craidd Canol y Ddinas** - dechreuwyd ar gynllun gwella ardaloedd cyhoeddus gwerth £3.75 miliwn, a fydd yn cynnwys adnewyddu arwynebau presennol â deunyddiau o safon yn ogystal â chyflwyno celfi stryd newydd a chelf gyhoeddus a fydd yn dirnod.
- **Strategaeth Bae Abertawe** - lansiodd y strategaeth sy'n un o gyfres o fentrau sy'n cydberthyn i wella perfformiad hir dymor y ddinas a'r cyfleusterau ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau rhwng canol y ddinas a'r Mwmbwls. Trafodwyd ac fe ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y strategaeth hon.
- **Strategaeth Adfywio Economaidd** - fe'i mabwysiadwyd yn 2006 ac mae'n parhau i ddatblygu.
- **Strategaeth Glannau Afon Tawe** - mabwysiadwyd y strategaeth yn 2006 ac fe ddechreuwyd ei rhoi ar waith.
- **Y Ganolfan Hamdden** - sicrhawyd bod adnewyddu'r Ganolfan Hamdden, gwerth £32 miliwn, wedi parhau ar amser i'w chwblhau erbyn diwedd 2007.
- **Gorsaf Fysus y Cwadrant** - dyrannwyd £595k o grant trafndiaeth eleni ar ddechrau'r prosiect. Rydym hefyd wedi cwrdd â LICC i drafod ariannu pellach ar gyfer y cynllun.
- **Marchnad Abertawe** - clustnodwyd £750k i adnewyddu'r farchnad.
- **Safle David Evans** - cwblhawyd y gwaith dymchwel a pharatoi'r safle.
- **Cynhadledd GTOA** - cawsom y fraint o gynnal y gynhadledd dwristiaeth genedlaethol nodedig. Cynhelir cynhadledd y Gymdeithas Trefnwyr Gwyliau Grŵp yn Abertawe ym mis Ionawr 2008 a bydd yn ddigwyddiad tridiau a fydd yn denu 200 o aelodau GTOA i Abertawe. Bydd yn cynnwys teithiau o Fae Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr i'r cynrychiolwyr.
- **Twristiaeth** - rhoi'r Strategaeth Twristiaeth ar waith i wella proffil y Ddinas a'r Sir, gwella nifer yr ymwelwyr a faint mae ymwelwyr yn ei wario yn y Ddinas a'r Sir.
- **Gêmau Olympaidd 2012** - cyflwynwyd cais i gynnal gwersylloedd hyfforddi ar gyfer gêmiau Olympaidd 2012 fel rhan o gais Cymru gyfan.
- **Gêmau Olympaidd Ysgolion** - boom yn llwyddiannus yn sicrhau gêmiau Olympaidd Ysgolion y DU yn 2009 ar y cyd â Chyngor Caerdydd a Chasnewydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn denu mwy o ymwelwyr â Dinas a Sir Abertawe ac arian i'r economi leol.
- **Digwyddiadau** - datblygwyd digwyddiadau proffil uchel ar gyfer Dinas a Sir Abertawe gan gynnwys Gwledd y Gaeaf ar y Glannau, a ddenodd 100,000 o ymwelwyr a chyfrannu £2.35 miliwn i'r economi leol.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud

- **Cynllun Gwella Amgylchedd Craidd Canol y Ddinas** - symud ymlaen â'r cynllun hwn gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn haf 2008.
- **Safleoedd Datblygu Canol y Ddinas** - dewis datblygwr ar gyfer cynllun manwerthu'n bennaf ar gyfer Dewi Sant/y Cwadrant a Stryd Paxton erbyn mis Rhagfyr 2007. Sicrhau datblygwr ar gyfer safle'r Hwylbont yn gynnar yn 2008.
- **Cynllun Manwerthu Ffordd y Dywysoges** - symud ymlaen ag adeiladu'r cynllun manwerthu 58,000 troedfedd sgwâr newydd ar hen safle David Evans.
- **Y Ganolfan Hamdden** - sicrhau bod y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2007 er mwyn ei hagar i'r cyhoedd yn gynnar yn 2008. At hynny, byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Ganolfan Hamdden, sy'n cynnwys pobl leol medrus, i sicrhau y bydd y cyfleuster yn llwyddiannus iawn.
- **Cynnig Chwaraeon Gaeaf y Morfa** - symud ymlaen â thrafodaethau gyda'r datblygwr ynghylch cynigion ar gyfer canolfan sgïo ac eira dan do gyntaf Cymru ar hen lethr sgïo awyr agored y Morfa.
- **Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir** - parhau i wella mynediad y cyhoedd i rannau o'r Gŵyr, gan ganolbwyntio ar wella mynediad i gerddwyr, marchogwyr a phobl ag anawsterau symudedd.
- **Bae Langland** - ystyried ailadeiladu'r cytiau traeth yn Langland ynghyd ag ystyried newid y trefniadau prydlesu i brydlesau hwy rhwng pum a phymtheng mlynedd.
- **Gwelliannau Adeiladu** - clustnodi arian ar gyfer cynllun i wella'r amrywiaeth o adeiladau cyhoeddus gan gynnwys Neuadd y Ddinas a Theatr y Grand.
- **Strategaethau** - ceisio mabwysiadu Fframwaith Strategol Bae Abertawe. Rhoi cynllun Ffordd y Morfa a safle Gwaith Copr yr Hafod ar waith fel rhan o Strategaeth Glannau Afon Tawe. Rhoi Strategaeth yr Economi Wybodaeth ar waith drwy sefydlu corff cyflwyno'r Economi Wybodaeth erbyn mis Rhagfyr 2007.
- **Cae'r Vetch** - rhoi Prif Gynllun Cae'r Vetch ar waith er mwyn adfywio'r ardal gan gynnwys dechrau marchnata'r safle.
- **Digwyddiadau Strategol** - llunio a rhoi'r Strategaeth Digwyddiadau Strategol ar waith erbyn gwanwyn 2008 er mwyn datblygu digwyddiadau a gwella proffil Dinas a Sir Abertawe er mwyn ymweld â hi.
- **Marchnad Abertawe** - dechrau ar waith safle i wella mynedfeydd Marchnad Abertawe yn gynnar yn 2008 er mwyn uwchraddio'r safonau amgylcheddol a gweithredol a chynorthwyo i adfywio canol y ddinas.
- **Castell Ystumllwynarth** - llunio cais am grant sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Cadw i adnewyddu Castell Ystumllwynarth, sy'n atyniad twristiaeth mawr.

CEFNOGI CYFLWYNO GWASANAETHAU

Beth rydym wedi ei gyflawni

- **e-Lywodraeth** - disodli dros 30 o systemau TG ag un system gorfforaethol i gynnal gwasanaethau 'swyddfa gefn' gan gynnwys cyllid, caffael, prosiectau ac AD.
- **Cyswllt Abertawe** - cytundeb Gwasanaeth yn ei le rhwng Cyngor Abertawe a Chyngor Caerdydd i gyflwyno system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM), o fewn Canolfan Gyswllt newydd, er budd cwsmeriaid Dinas a Sir Abertawe.
- **Cyllid** - cefnogi holl brosiectau a gwasanaethau'r Cyngor â system gyfriflyfrau (fel rhan o e-Lywodraeth) yn ogystal â gwybodaeth ariannol amserol a chadarn. Caewyd y cyfrifon fis yn gynt nag yn y gorffennol.
- **Caffael** - parhau i weithio gyda phartneriaid a chyflenwyr i gyflwyno gwerth gorau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau tra'n cynnal cywirdeb a sicrhau cynladwyedd wrth gaffael.
- **Cyfreithiol** - darparu cyngor cywir a chyflym i'r adrannau a chefnogi adrannau cleient wrth gydymffurfio â therfynau amser statudol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- **Prosiectau Strategol** - parhau i gefnogi cyflwyno'r Rhaglen Strategol sy'n cynnwys 12 prosiect strategol h.y. y Ganolfan Hamdden, y Ganolfan Ddinesig, drwy wella arferion gwaith, cynnal archwiliadau a gwiriadau iechyd a darparu hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu** - cyfathrebu gwell o fewn y Cyngor a chyda'r gymuned ehangach. Datblygwyd gwefan a mewnrwyd y Cyngor gan ddyblu'r defnydd i 1.2 miliwn. Yn ystod 2006/07, mae cyfathrebu allanol wedi gwella drwy gyflwyno gwasanaeth diweddarau dros yr e-bost am ddim i bron 4,000 o drigolion gan dderbyn gwybodaeth am newyddion, swyddi, digwyddiadau a gwaith ffyrdd.
- **Adnoddau Dynol** - fel rhan o'r Rhaglen e-Lywodraeth, cyflwynwyd system AD newydd ac un gronfa ddata ar gyfer holl weithwyr y Cyngor.
- **Cydraddoldeb** - lanswyd Polisi Iaith Gymraeg newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Felindre, cyhoeddwyd Polisi Anabledd newydd a datblygwyd gweithdrefn newydd ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau casineb ac aflonyddu mewn ymgais i roi terfyn ar wahaniaethu ar draws y Ddinas a'r Sir.
- **Hydwythedd** - parhau i ddatblygu a rhoi'r ymagweddau Risg a Hydwythedd corfforaethol ar waith i ategu cyflwyno gwasanaethau. Hefyd gweithiwyd gyda phartneriaid i ddatblygu ymhellach ymagweddau sifil wrth gefn dinesig i'w defnyddio pan fydd argyfyngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

- **e-Lywodraeth** - cwblhau rhoi'r gyflogres ar waith - gweithio ar brosiectau Gwella Gwasanaethau a Datblygu Pwrcasu i fwyafu'r buddion i'r Cyngor. Archwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu 'gwasanaethau a rennir' gyda sefydliadau partner fel rhan o'r Rhaglen Creu'r Cysylltiadau.
- **Cyswllt: Abertawe** - parhau i ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Gyswllt a chyflwyno cam cyntaf y Ganolfan Alwadau.
- **Y Ganolfan Ddinesig** - parhau i wella gwasanaethau i gwsmeriaid drwy greu caffï newydd, man arddangos ac adnewyddu'r cyntedd canolog a chreu llyfrgell ganolog newydd. Bydd y Ganolfan Ddinesig newydd yn cael ei hagor ym mis Mawrth 2008.
- **Caffael** - drwy'r Rhaglen e-Lywodraeth, cyflwyno prosiect Datblygu Pwrcasu a fydd yn ehangu'r defnydd o brynu mwy o nwyddau a gwasanaethau ar-lein, datblygu rhwydwaith gwell o brynwyr ac ehangu'r defnydd o gardiau pwrcasu.
- **Cyfreithiol** - sicrhau bod gofynion proffesiynol staff yn cael eu diwallu a bod staff yn cynnal Safon Rheoli Arfer Cymdeithas y Gyfraith erbyn mis Mawrth 2008.
- **Prosiectau Strategol** - parhau i oruchwylio rheolaeth effeithiol o'r Rhaglen Strategol a gwella gallu a medr y sefydliad ynghylch rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- **Cyfathrebu** - parhau i reoli cyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor a chyda'r gymuned ehangach, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y ddinas i hyrwyddo Abertawe.
- **Adnoddau Dynol** - rhoi Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd ar waith sy'n cyd-fynd â gofynion Cytundeb Tâl Cenedlaethol 2004-2007, a chwblhau rhoi'r system gyflogres newydd ar waith drwy'r rhaglen e-Lywodraeth.
- **Perfformiad** - parhau i reoli a datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad gan gynnwys integreiddio rheoli risg corfforaethol a chynllunio ariannol yn well a datblygu'r rôl graffu.
- **Hydwythedd** - parhau i reoli a datblygu ymagwedd y Cyngor at hydwythedd, mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Fforwm Hydwythedd Lleol De Cymru.
- **TGCh** - parhau i reoli'r contract gyda Capgemini er mwyn gwella gwasanaethau a rhoi gwerth am arian yn barhaus.

Pennod 5

Rheoli a Chraffu

Barn y Rheolyddion

Mae pob cyngor yn destun archwiliadau ac arolygiadau gan y Rheolyddion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella, y glynir at weithdrefnau a bod cynghorau'n gadarn o ran cyllid ac yn gweithredu arferion rheoli effeithiol ac effeithlon. Mae'r Rheolyddion yn cynnwys:

- Swyddfa Archwilio Cymru.
- Price Waterhouse Coopers (ein harchwilwyr allanol).
- Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC).
- Estyn - yr Arolygiaeth Addysg

Mae'r archwiliadau a'r arolygiadau hyn yn bwysig i ni am 2 brif reswm:

- Maent yn cadarnhau bod ein hymagweddau a'n gweithdrefnau'n briodol, yn gadarn ac yn effeithiol.
- Nodir y meysydd i'w gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Rheolyddion yn ymgymryd ag amrywiaeth o archwiliadau ac arolygiadau newydd yn ogystal ag olrhain archwiliadau ac arolygiadau blaenorol i sicrhau bod argymhellion blaenorol wedi cael eu cyflawni. Diffinnir y meysydd i'w harchwilio a'u harolygu bob blwyddyn fel "Asesu Risgiau ar y Cyd" sy'n golygu bod y Rheolyddion a'r Cyngor yn trafod ac yn cytuno ar feysydd perygl a phwysig a lle mae angen gwella a chymorth i gyflawni gwelliant. Mae canlyniadau'r Asesu Risgiau ar y Cyd a gwblhawyd ym mis Awst 2007 isod.

Yn naturiol, mae pob cyngor am i'r Rheolyddion roi sêl bendith iddynt. Serch hynny, mae cynghorau'n sefydliadau mawr a chymhleth sy'n cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau i nifer mawr o bobl ac mae meysydd i'w gwella o hyd. Mae'r bennod hon yn rhoi cipolwg o farn y Rheolyddion ynghylch Cyngor Abertawe yn ystod y 12 mis diwethaf ynghyd â manylion yr Asesu Risgiau ar y Cyd a fydd yn cyfeirio'r rhaglen archwiliadau ac arolygiadau ar gyfer 2007/08.

Archwiliadau ac Arolygiadau

Cafodd y Cyngor ei archwilio a'i arolygu ar draws amrywiaeth o wasanaethau, yn ystod 2006/07 gan gynnwys:

- Cynnydd yr adolygiad cyflogau a graddfeydd
- Cwmni Rheoli Stadiwm Abertawe
- Cysylltiadau Cyfryngau
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (yn parhau)
- Cyfrifon Ariannol (yn parhau)
- Adolygiad Rheoli Gwastraff
- Gwasanaethau Cynllunio
- e-Lywodraeth
- Strydlun
- Creu'r Cysylltiadau (yn parhau)
- Rheoli Perfformiad
- Cynllun Gwella 2006/07
- Astudiaeth Gwella Adfywio - dilyniant

Llythyr Blynyddol y Rheolwr Cydberthnasau 2005/06 yw barn Swyddfa Archwilio Cymru am y Cyngor yn gyffredinol ac mae'n rhoi trosolwg o weithrediadau, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chydymffurfio. Mae'n crynhoi canfyddiadau llawer iawn o'r gwaith archwilio ac arolygu yr ymgwymerwyd ag ef yn 2005/6 - gwelir copi ar wefan y Cyngor yn:

<http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=19226>

Wrth symud ymlaen, mae'r archwiliadau a'r arolygiadau canlynol ar y gweill ar gyfer 2007/08:

- Cyfrifon Ariannol (yn parhau)
- e-Lywodraeth (yn parhau)
- Cyllidebau Ysgolion
- Prosiect Adolygu Cyflogau a Graddfeydd
- Rheoli Asedau
- Gwasanaethau Cynllunio
- Gwrthdlodi (dilyniant)
- Chwaraeon ac Adloniant (yn parhau)
- Creu'r Cysylltiadau (yn parhau)
- Archwilio'r Cynllun Gwella
- Y Daith tuag at Berfformiad Gorau

Mae manylion llawn yr holl adroddiadau archwilio ac arolygu ar gael ar gais (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y cyhoeddiad hwn). Yn gyffredinol, mae'r Rheolyddion yn cadarnhau bod y Cyngor yn symud yn y cyfeiriad cywir ac yn cydnabod ac yn croesawu ymdrechion i wella. Serch hynny, ceir meysydd i'w gwella o hyd ac mae'r Cyngor yn chwilio am y rhain. Mae'r meysydd hyn yn sail i weithredu yn y dyfodol gan y Cyngor a hefyd archwiliadau ac arolygiadau yn y dyfodol gan y Rheolyddion.

Er mwyn darparu trefn gynlluniedig ar gyfer arolygiadau ac archwiliadau a chynorthwyo'r Cyngor i ganolbwyntio ar faterion allweddol, defnyddir canlyniadau gwaith blaenorol a gynhaliwyd gan y Rheolyddion i gyfeirio Asesu Risgiau ar y Cyd. Esbonnir hyn isod.

Asesu Risgiau ar y Cyd

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn defnyddio'r weithdrefn Rheoli Risgiau i adolygu'r risgiau y mae'n eu hwynebu dros y 12 i 24 mis sydd i ddod. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n wynebu'r Cyngor yn gyffredinol (gelwir yn Risgiau Corfforaethol) a'r rheiny a wynebir gan wasanaethau (gelwir yn Risgiau Gwasanaethau). Prif bwrpas ymgymryd â'r ymarfer hwn yw sicrhau cytuno ar gamau gweithredu priodol a'u rhoi ar waith i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu trafod heb gael effaith andwyol ar waith y Cyngor. Mae hyn yn cael ei adolygu bob chwarter fel rhan o broses Rheoli Risgiau'r Cyngor.

Ar gyfer pob risg a nodir, mae cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio a'u neilltuo i uwch-reolwyr ar draws y Cyngor. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn cyfeirio'r prosesau cynllunio corfforaethol a gwasanaethau blynyddol sy'n nodi'n glir blaenoriaethau a'r camau gweithredu y mae'r Cyngor a'i wasanaethau'n gorfod eu cyflawni er mwyn cyflwyno eu hymrwymiaidau ac o ran lefelau gwasanaeth.

Cam pellach yn y broses hon yw Asesu Risgiau ar y Cyd blynyddol sy'n golygu bod y Rheolyddion a'r Cyngor yn dod ynghyd i gytuno ar y risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Cynhaliwyd hyn ym mis Awst 2007 a bydd 2 brif bwrpas iddo:

- Cyfeirio proses asesu risgiau blynyddol y Cyngor a fydd yn ailddechrau'n hwyrach eleni. Ar gyfer pob risg a nodir yn y broses hon, bydd y Cyngor yn cymryd camau lliniarol priodol.
- Cyfeirio'r Cynllun Rheoleiddio sy'n nodi manylion yr archwiliadau a'r arolygiadau y bydd y Rheolyddion yn ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Caiff y risgiau eu categorio fel Uchel, Canolig neu Isel.

Mae cynnydd wrth ddelio â risgiau yn ddangosydd da o pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio'n gyffredinol. O'r meysydd (a elwir yn "Agweddau") a asesir fel rhan o'r Asesu Risgiau ar y Cyd, mae'r Cyngor yn ceisio lleihau'r nifer sy'n cael eu hasesu fel Risg Uchel. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd i gyflawni hyn ac mae'r crynodeb isod yn rhoi cipolwg o'r newid o ran risg dros y 2 flynedd ddiwethaf ar gyfer y rheiny y gellir eu cymharu.

Crynodeb o Risg

	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08	Gwahaniaeth + neu -
Corfforaethol			
Nifer y rhai uchel	5	2	-3
Nifer y rhai canolig	14	18	+4
Nifer y rhai isel	1	0	-1
Gwasanaeth			
Nifer y rhai uchel	17	17	0
Nifer y rhai canolig	24	30	+6
Nifer y canolig/tsel	0	1	+1
Nifer y rhai isel	22	17	-5
Heb eu hasesu	2		

Yn 2006/07, ac eithrio'r rheiny na chawsant eu hasesu, roedd cyfanswm o 61 o 83 maes yn risg canolig neu'n is (73%); yn 2007/08, mae cyfanswm o 66 o 85 yn risg canolig neu'n is (78%). Mewn geiriau eraill, mae'r rheiny sy'n risg uchel wedi gostwng o 27% i 22%. Er ymddengys bod y gostyngiad yn y meysydd risg uchel hwn yn fach, mae'n arwyddocaol, yn arbennig mewn perthynas â risgiau corfforaethol ac mae'n dangos bod gan y Cyngor systemau a phrosesau cywir ar waith wrth ddelio â risgiau.

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae Asesu Risgiau wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tablau wedi'u rhannu i lechyd Corfforaethol a Risgiau Gwasanaeth. Mae pob tabl yn nodi nifer y risgiau a'u lefelau asesu ar gyfer pob agwedd. Mae esboniad manylach o ystyr yr agweddau a nodir ar gael ar gais.

Iechyd Corfforaethol

Agwedd	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08
Gwasanaethau Democrataidd Trefniadau Craffu, arweinyddiaeth leol.	1 Uchel	1 Uchel
Rheolaeth Strategol a Chorfforaethol Arweinyddiaeth a rheolaeth, cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol	1 Uchel 1 Canolig	2 Canolig
Diwylliant, Arweinyddiaeth a Gweledigaeth Gweledigaeth sefydliad, Arweinyddiaeth a gwerthoedd trefniadaeth	1 Uchel	1 Canolig

Agwedd	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08
Gwaith Partneriaeth Cysylltu â phartneriaid, partneriaethau ystyrlon ac effeithiol, Byrddau Gwasanaeth Lleol	1 Uchel	1 Canolig
Safonau Ymddygiad Cyfeiriadau at yr Ombwdsmon, Còd ymddygiad	1 Canolig	1 Canolig
Caffael Cyfleoedd e-fasnach, cyflwyno prosiectau	1 Canolig	1 Canolig
Rheoli Prosiectau Methodoleg rheoli prosiectau, rheoli prosiectau	1 Canolig	1 Canolig
Rheoli Risgiau Proses rheoli risgiau i asesu a rheoli risgiau	1 Canolig	1 Canolig
Rheoli Perfformiad, Mesur Gwybodaeth a Pherfformiad Cynlluniau Unedau Gwasanaeth, gwybodaeth berfformio, adrodd am systemau a pherfformiad	2 Canolig	2 Canolig
Deall yr Ardal o Amgylch ac ymateb i heriau allanol Ystyried dylanwadau allanol, barn y Rheolyddion, perthynas â'r rheolyddion	2 Canolig	2 Canolig
Ffocws Cymunedol Strategaeth Gymunedol, partneriaethau etc	1 Canolig	1 Canolig
Cynnwys Cwsmeriaid	1 Uchel	1 Canolig
Gallu a Medr Gallu a medr y sefydliad i ddiwallu galwadau	1 Canolig	1 Canolig

Agwedd	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08
Cynladwyedd Cyflwyno polisiau, gweithdrefnau, strategaethau a gweithgareddau cynaliadwy.	1 Canolig	1 Canolig
Cydraddoldebau, Amrywiaeth Cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb	1 Canolig	1 Uchel
"Creu'r Cysylltiadau" Agenda Genedlaethol "Creu'r Cysylltiadau"	1 Canolig	1 Canolig
Cynllunio Brys/Parhad Busnes Cydymffurfio â deddfwriaeth, gwasanaethau allweddol a chynlluniau parhad busnes	1 Isel	1 Canolig

Risgiau Gwasanaeth

Agwedd	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Average Risk Level agreed for 2007/08
Addysg Gwella ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Hyrwyddo Cynhwysiad Cymdeithasol, Hyrwyddo Mynediad, Ariannu Ysgolion ac agweddau eraill nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion.	3 Uchel	1 Uchel
	3 Canolig	5 Canolig
Diwylliant Llyfrgelloedd, Chwaraeon ac Adloniant, Twristiaeth a Chelf a Diwylliant	3 Canolig	4 Canolig
	1 Isel	
Yr Amgylchedd Iechyd yr Amgylchedd, Diogelwch Bwyd, Diogelu Defnyddwyr, Trwyddedu, Gwasanaethau Mynwentydd, Amlogsgfa a Chorffdy, Amddiffynfeydd Llifogydd a Draenio Tir, Gwastraff ac Ailgylchu, Strydlu (newydd ar gyfer 2007/08) a Diogelwch Cymunedol	1 Uchel	1 Uchel
	1 Canolig	3 Canolig
	6 Isel	5 Isel

Agwedd	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2006/07	Lefel y Risg y cytunwyd arni ar gyfer 2007/08
Adfywio Adfywio Cymunedol, Fframwaith Canol y Ddinas	1 Uchel	1 Uchel
Gwasanaethau Cynllunio Polisi Cynllunio, Rheoli Datblygiadau, Gorfodi Cynllunio a Rheoli Adeiladu	2 Uchel	2 Uchel
	2 Isel	2 Isel
Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth Priffyrdd, Adeiladu a Chynnal a Chadw Ffyrdd, Goleuadau Stryd, Rheoli Traffig a Diogelwch Ffyrdd, Cludiant Cyhoeddus a Pharcio	2 Canolig	3 Canolig
	3 Isel	2 Isel
Tai Rôl strategol, casglu ac ôl-ddyledion rhent, Safon Ansawdd Tai Cymru, Rheoli Ystadau, Digartrefedd	2 High	2 High
	2 Canolig	3 Canolig
	1 Isel	
Gwasanaethau Cymdeithasol Ar gyfer y Gwasanaeth i Blant ac Oedolion - Mynediad i wasanaethau, amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau, diogelu pobl ddiamddiffyn. Adnoddau: ariannol, eiddo a gweithlu. Cynllunio a chomisiynu, Arweinyddiaeth a Chraffu a'r Ddeddf Plant a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol	4 Uchel	4 Uchel
	7 Canolig	7 Canolig
TGCh Rhannu Gwasanaethau a Gwybodaeth, e-Lywodraeth, Gwybodaeth Llywodraethu, Diogelwch TG	2 Uchel	3 Uchel
	3 Canolig	1 Canolig
		1 Isel
Gwasanaethau Canolog Rheoli Eiddo ac Asedau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyllid, Iechyd Ariannol (newydd ar gyfer 2007/08), Gwasanaethau Etholiadol, Adnoddau Dynol, Refeniw, Budd-dâl Tai a Threth y Cyngor	2 Uchel	3 Uchel
	2 Canolig	1 Canolig
	6 Isel	1 Canolig / Isel
		6 Isel
Archwiliad COAIP o Systemau Ariannol Systemau Rheoli Mewnol, Datganiadau Ariannol, Datganiadau Llywodraethu, Enillion Effeithlonrwydd	1 Canolig	3 Canolig
	3 Isel	1 Isel

Craffu

Beth yw Craffu?

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gael trefniadau gweithredol yn eu lle, sy'n golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran y Cyngor, ar y mwyafrif o faterion gan y Cabinet, sy'n cynnwys hyd at ddeg o Gyngorwyr Abertawe. Mae'r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno swyddogaeth Trosolwg a Chraffu mewn Llywodraeth Lleol sy'n ceisio:

- Cryfhau atebolrwydd am benderfyniadau a pherfformiad;
- Sicrhau bod anghenion trigolion a grwpiau cymunedol yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiau'r Cyngor drwy gynnwys yr Aelodau a'r cyhoedd yn fwy wrth wneud penderfyniadau ac wrth lunio polisiau;
- Cefnogi, hyrwyddo a datblygu rôl arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor.

Ymglymerir â chraffu gan Gyngorwyr nad oes ganddynt swyddi yn y Cabinet ac ym mis Mai 2006 cyflwynodd y Cyngor 8 Bwrdd Craffu sy'n ceisio cryfhau eu rôl a'u hymrwymiad wrth herio a gwella perfformiad gwasanaethau'r Cyngor. Roedd hefyd yn ceisio cryfhau'r cyfle i gwestiynu Aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ynghylch materion maent yn atebol amdanynt.

Yn dilyn cyflwyno'r trefniadau craffu newydd hyn, mae pob un o 8 Bwrdd Craffu'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddau brif faes gwaith, o fewn ei Gylch Gwaith ei hun:

- Adroddiadau Trosolwg - Mae'r rhain yn rhoi'r 'darlun mawr' o faes gwasanaeth neu bolisi (gan gynnwys archwiliadau allanol/arolygiadau) ac yn rhoi cyfle i Fyrddau Craffu gwestiynu'r Aelod Cabinet neu Uwch Swyddog perthnasol.
- Adolygiadau Craffu - Mae'r rhain yn ddarnau o waith manwl ar feysydd allweddol. Mae casglu tystiolaeth a chynnwys cymunedau'n galluogi Byrddau Craffu i ddod i gasgliadau a gwneud argymhellion i'r Cabinet, y Cyngor a chyrrff eraill.

Mae'r tabl isod yn nodi gwaith cyfredol, arfaethedig a gorffenedig ar gyfer pob un o'r Byrddau Craffu.

Bwrdd	Cyfredol	Arfaethedig	Adolygiadau Gorffenedig - 2006/07 (testun gwaith dilynol)
Archwilio	Defnydd o Ymgynghorwyr ar draws y Cyngor	"Creu'r Cysylltiadau"	Creu Compact gyda'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol
Arweinyddiaeth Gymunedol	Amcangyfrifon o'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad	Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> ● Cofnodi Presenoldeb Aelodau ● Cynnwys y Cyhoedd yn y Strategaeth Gymunedol

Bwrdd	Cyfredol	Arfaethedig	Adolygiadau Gorffenedig - 2006/07 (testun gwaith dilynol)
Addysg a Dysgu Gydol Oes	Presenoldeb mewn ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> Gwaharddiadau mewn ysgolion Cyrhaeddiad Disgyblion Maeth Prydau Ysgol 	Lefelau Disgyblion mewn Ysgolion a Datrysiadau Blaengar
Yr Amgylchedd	Caffael Gwastraff Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Prosiect Metro Glanhau Strydoedd Arafu Traffig Pecynnu 	Perthynas â Gweithredwyr Statudol
Cyllid ac Eiddo	Cyllideb y Cyngor	Adolygiad o Adeiladau a Thir sy'n eiddo i'r Cyngor	Rheoli Ynni
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Effeithiolrwydd Partneriaethau Strategol o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Mater i'w nodi o Adolygiad Gwasanaethau Plant AGGCC	
Perfformiad	Rhaglen e-Lywodraeth – Arbedion Cam 1	Rheoli Perfformiad a Mesur	Cyfathrebu Allanol
Adfywio a Diwylliant	Lleihau Troseddu a Diogelwch Cymunedol	Cyfleusterau Ieuenctid	

Ynghyd â'r adolygiadau manwl a fanylir uchod mae'r Byrddau yn ymwneud â'r canlynol hefyd:

- Ystyried adroddiadau trosolwg ar feysydd gwasanaeth perthnasol
- Holi Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch materion sy'n achosi pryder
- Dilyn argymhellion o Adolygiadau Craffu blaenorol
- Adolygu a monitro perfformiad / a chymau gweithredu yn codi o adroddiadau allanol (archwiliadau; arolygiadau etc)

Tîm Cefnogi Craffu

Mae'r Tîm Cefnogi Craffu yn gweithio gydag aelodau'r Bwrdd Craffu i gyflawni gwaith cwmpasu a chynnal adolygiadau. Os hoffech fwy o wybodaeth ynghylch Craffu yn Abertawe: neu os oes gennych sylwadau ynghylch yr arweiniad hwn, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Craffu.

Ysgrifennwch at y: **Tim Cefnogi Craffu, Neuadd y Sir, Dinas a Sir Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Swansea SA1 3SN.** Ffôn: **01792 637491; 01792 637257; 01792 637256**
E-bost: scrutiny@swansea.gov.uk Gwefan: www.swansea.gov.uk/scrutiny

Pennod 6

Costau'r Cyngor

Wrth ddiwallu anghenion a galwadau ein dinasyddion, cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, mae angen lefel sylweddol o refeniw a gwariant cyfalaf blynyddol. Felly, isod ceir crynodeb bras o sut mae'r awdurdod yn bwriadu gwario'r arian hwn yn ystod 2007/08.

Setliad Llywodraeth Leol

Ychydig iawn o newid a gafwyd yn setliad eleni o'r hyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006, lle'r oedd y cynnydd yn y gefnogaeth gyffredinol yn 4.4% ac roedd hyn yn cynnwys ychwanegiadau ar gyfer gwasanaethau arbenigol i blant gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig, pwysau yn y system Gofal Cymdeithasol, cynnydd yn Nhrethi Tirlenwi a darparu grantiau uniongyrchol i ysgolion.

Gwariant Refeniw

Mae hwn yn wariant ar gostau rhedeg gwasanaethau o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau a thaliadau, costau cynnal adeiladau a cherbydau ynghyd ag ad-dalu dyledion yn flynyddol. Cyfanswm gwariant refeniw net blynyddol y Cyngor ar gyfer 2007/08 am gyflwyno gwasanaethau a chyfraniadau i gyrff eraill megis Cyngorau Cymuned a'r Awdurdod Tân ar y Cyd a phresaoptau yw £350.465m ac fe ariennir hyn drwy:

- Grant Cynnal Refeniw.
- Trethi Annomestig Cenedlaethol.
- Treth y Cyngor.

Mae Treth y Cyngor o ran gofynion y Cyngor ei hun ar gyfer eiddo band 'D' wedi cynyddu 3.5% o'i gymharu â 5% yn 2006/07. Gyda buddsoddiad ychwanegol o bron £16m yn cael ei wario gan yr awdurdod i wella gwasanaethau ar gyfer poblogaeth yr Awdurdod oddeutu 230,000 bydd cynnydd ychwanegol ac arbedion yn y meysydd canlynol:

Addysg

Bydd ysgolion yn derbyn arian grant ychwanegol fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Lleol a bydd adnoddau ychwanegol o £2.426m yn cael ei glustnodi ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cyfleusterau addysgu arbenigol newydd. Mae Cynllun Ymddygiad Ysgolion/darpariaeth 25 awr yn faes gwario hanfodol lle clustnodwyd £608k ychwanegol a rhoddwyd £536k hefyd ar gyfer cefnogaeth un i un, ond ceir arbedion o ganlyniad i niferoedd gostyngol ar y cofrestrau.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymeradwydd y Cyngor gynnydd uwchlaw chwyddiant o £450k i fodloni costau Cartrefi Gofal a £125k ar gyfer Gofal Cartref. Bydd arian ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan gynnwys gofal maeth, mabwysiadu a chefnogaeth magu plant a thua £90k ar gyfer y Strategaeth Cam-drin yn y Cartref. Ceir arbedion mewn lleoliadau gofal cartref a phreswyl drwy gynnydd mewn effeithlonrwydd incwm.

Yr Amgylchedd

Arian ychwanegol i greu timau ymroddedig newydd ar gyfer glanhau mannau anniben, £67k ar gyfer peiriannau sgubo main newydd i wella glanhau strydoedd ac £1m ar gyfer gwaith cyn agor safle tirlenwi Tir John. Ceir arbedion ar y Prosiectau Trafnidiaeth Corfforaethol.

Adfywio

Bydd Canolfan Hamdden Abertawe wedi ei hadnewyddu, sydd i'w hagor yn 2008, yn costio £1m am waith cyn agor a chynnal. Mae arian ychwanegol o £45k yn cael ei glustnodi er mwyn newid oriau agor presennol y llyfrgell.

Tai (gan gynnwys cynnal a chadw - Portffolio Eiddo Corfforaethol)


Rhoddir gwariant o £250k i gynnal a chadw Portffolio Eiddo Corfforaethol yr Awdurdod a cheir arbedion yn y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol drwy leihau'r costau cyffredinol.

Perfformiad Gorau a e-Lywodraeth

Mae gwariant eleni'n cynnwys £100k ar gyfer costau isadeiledd TG a £98k ar gyfer Prosiect y Ganolfan Ddinesig, gyda chynigion arbedion mewn cytundeb trwyddedu diwygiedig.

Gwelir dosbarthiad y gwariant ymhlith prif wasanaethau'r Cyngor yn y diagram sy'n dilyn.

DINAS A SIR ABERTAWE - GWARIANT REFENIW NET 2007-08 (mewn miliynau)



Mae hwn yn wariant a geir wrth brynu neu wella asedau arwyddocaol gan gynnwys tir, adeiladau a chyfarpar, a fydd o ddefnydd neu o fudd wrth ddarparu gwasanaethau am fwy nag un flwyddyn ariannol.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r cynigion ar gyfer 2007/08 yn dangos bod gan yr Awdurdod raglen sylweddol o wariant cyfalaf ac mae'r gyllideb ar gyfer 2007/08 yn nodi y bydd £79.316m yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn. Mae'r swm hwn gyfwerth â chynnydd o £10.684m yn seiliedig ar amcangyfrif gwreiddiol o £68.632m yn 2006/07. Dylid nodi bod y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2006/07 yn nodi cynnydd o £29.94m o'r gwreiddiol i sefyllfa ddiwygiedig o £98.572m.

Dosberthir y gwariant hwn dros nifer o wasanaethau gan gynnwys:

- rhaglen dreigl o isadeiledd eiddo, cynnal a chadw ac adnewyddu,
- adnewyddu Canolfan Hamdden Abertawe,
- datblygu arfaethedig y ganolfan ddinesig a'r llyfrgell ganolog, a
- chostau ailddatblygu safle ar gyfer y Strategaeth Gwastraff.

Mae manylion y gwariant cyfalaf o fewn pob maes isod:

Arweinyddiaeth Gymunedol a Democratiaeth

Bydd £2.383k yn cael ei wario ar welliannau craidd a ffioedd proffesiynol wrth ailddatblygu canol y ddinas fel rhan o Fframwaith Canol y Ddinas.

Diwylliant a Thwristiaeth

Bydd dros £20m yn cael ei wario ar adnewyddu Canolfan Hamdden Abertawe, y disgwylir iddi agor yn 2008, a chlustnodwyd dros £1.1m ar gyfer parciau, yn arbennig Ailddatblygu Parc Brynmill ac Adfer Castell Ystumllwynarth.

Yr Amgylchedd

Gwaith cynnal a chadw strwythurol ar gyfer ffyrdd, pontydd a waliau gan roi cyfanswm o £3.7m ar gyfer y flwyddyn a fydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen flynyddol, gan gynnwys gwaith isadeiledd brys. Bydd gwaith ar y glannau a'r marina sy'n costio £580k yn canolbwyntio ar bontynau a'r bont droi newydd.

Addysg

Clustnodwyd dros £2.2m i'w fuddsoddi mewn ysgolion cynradd ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgolion gan gynnwys arian ar gyfer ysgol a llyfrgell newydd St Thomas. Mae tua £6.1m yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith grant Gwella Adeiladau Ysgolion, ac mae £2.4m ar gyfer blociau addysgu newydd yn ysgolion cyfun Tregŵyr a Threforys a bron £3m ar gyfer ysgol newydd YGG Llwynderw.

Tai

Bydd rhaglen ffenestri ac amnewid gwerth £1.1m ar gyfer tai cyngor yr awdurdod yn dechrau yn 2007/08 gyda symiau tebyg yn cael eu clustnodi ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Datblygu Economaidd a Strategol

Gwneir gwelliannau parhaus i Farchnad Abertawe gyda £285k yn cael ei fuddsoddi ar gyfer gwaith adnewyddu.

Gwasanaethau Cymdeithasol


Bydd bron £1m yn cael ei wario ar gartref plant Blaenymaes ac adleoli gwasanaethau dydd Gorseion.

Perfformiad Gorau

Clustnodir bron £8.1m ar gyfer Prosiect y Ganolfan Ddinesig sy'n cynnwys llyfrgell newydd, canolfan gyswllt a chaffi/ffreutur newydd ac ardaloedd yn y cyntedd.

Ceir crynodeb o'r gwariant cyfalaf yn ôl maes gwasanaeth yn y diagram isod.

DINAS A SIR ABERTAWE – GWARIANT CYFALAF 2007008 (mewn miliynau)



Pennod 7

Rhaglenni a Phrosiectau

Mae'r Rhaglen Strategol yn cynnwys 14 Rhaglen a Phrosiect ar hyn o bryd. Y Rhaglenni a'r Prosiectau hyn yw'r rhai sy'n cefnogi'r nodau a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor orau ac felly cyflwyno gweledigaeth gyffredinol y Cyngor.

Mae'r Rhaglen Strategol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Tim Rheoli Corfforaethol ac fe adroddir ar gynnydd bob mis i'r Bwrdd Rhaglenni Strategol sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Strategol y Cyngor. Mae'r Cyfarwyddwyr yn briffio eu Haelodau Cabinet perthnasol ynghylch unrhyw faterion.

Mae'r wybodaeth isod yn nodi manylion pob un o'r 14 rhaglen a phrosiect.

Rhaglen e-Lywodraeth

Dechreuodd rhaglen e-Lywodraeth y Cyngor yn 2006 i helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau corfforaethol o weithredu fel un sefydliad a hefyd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

O fewn y flwyddyn gyntaf, cafwyd nifer o gyflawniadau. Mae dros 30 system TG wedi cael eu disodli gan un system gorfforaethol integredig. Ynghyd â hyn, mae gan y Cyngor bellach un gronfa ddata AD, sydd yn y pen draw yn galluogi cefnogi gweithwyr yn well a rheoli perfformiad, recriwtio a hyfforddi'n effeithiol. Hefyd am y tro cyntaf, mae gan y Cyngor, un system e-gaffael gorfforaethol sy'n galluogi staff ym mhob adran i brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein.

Dros y 12 i 18 mis nesaf, bydd y Rhaglen e-Lywodraeth yn cyflwyno prosiectau pellach, gan gynnwys system gyflogres newydd ynghyd â system AD, gan ein galluogi i weithredu 11 cyflogres yn hytrach na'r 22 sydd ar waith ar hyn o bryd. Ynghyd â hyn, bydd prosiect datblygu pwrcasu'n ehangu'r defnydd o brynu mwy o nwyddau a gwasanaethau ar-lein, datblygu rhwydwaith gwell o brynwyr ac ehangu'r defnydd o gardiau prynu.

Ac yn olaf, mae prosiect Gwella Gwasanaethau ar waith a fydd yn cefnogi amcan y Cyngor o Wella Parhaus, gyda phrosesau busnes yn cael eu hail-weithio i fwyafu'r defnydd ymarferol o'r Rhaglen e-Lywodraeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cael eu cyflwyno'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Rheoli Gwastraff

Mae'r Cyngor yn wynebu targedau statudol ar gyfer dargyfeirio gwastraff bioddiraddadwy o dirlenwi, ac os na chaiff hyn ei gyflawni, gallai arwain at ddirwyon ariannol difrifol o £200 y dunnell o 2010 ymlaen. O ganlyniad i'r galwadau a'r pwysau hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth i bwrcasu ateb rheoli gwastraff cynaliadwy a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r targedau hyn ac ateb y broblem o waredu gwastraff gweddilliol.

At hynny, mae Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru "Yn Gall gyda Gwastraff" wedi pennu targedau heriol ar gyfer ailgylchu a chompostio gwastraff dinesig. Er bod y Cyngor wedi cyflawni a rhagori ar gerrig milltir yn llwyddiannus hyd at fis Ebrill 2007, mae carreg filltir bellach a mwy heriol i'w chyrraedd erbyn 2010.

Er mai nod nesaf caffael yw dyfarnu contract gwasanaeth integredig cyn gynted ag y bo modd, bydd penderfyniadau ynghylch technoleg gwastraff, trefniadau ariannu, safleoedd, partneriaethau a threfniadau dros dro yn ofynnol cyn dyfarnu ac adeiladu'r cyfleusterau gwastraff angenrheidiol. Disgwylir i gam trafod (prif dendr) y broses ddechrau ym mis Medi 2007.

Rhaglen Dyfodol Tai

Nod y Rhaglen Dyfodol Tai yw creu fframwaith ariannol a threfniadol er mwyn gallu gwella stoc tai'r Cyngor i gyd-fynd â Safon Ansawdd Tai Cymru. Yr opsiwn sy'n cael ei ystyried ar gyfer bodloni'r nod hwn oedd trosglwyddo'r stoc yn wirfoddol ar raddfa fawr i sefydliad 'Tai Cydfuddiannol Cymunedol' a fyddai wedi darparu'r arian ychwanegol gofynnol. Roedd hwn yn destun pleidlais gyfrinachol ymhlith tenantiaid ym mis Mawrth 2007, gyda phleidlais y mwyafrif yn erbyn y cynigion. Serch hynny, mae'r her o fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru'n parhau a sefydlwyd y rhaglen hon i ddatblygu strategaeth arall.

Strategaeth Pobl Hŷn

Un o amcanion trosgynnol yr Awdurdod Lleol yw gwella iechyd a lles pobl hŷn yn Ninas a Sir Abertawe ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y Prosiect Pobl Hŷn sydd ar waith ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ceir rhesymau niferus ac amrywiol am y prosiect hwn ond yn fras; cofnodwyd cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn Abertawe a'r DU yn gyffredinol. Gallai effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar ofal cymdeithasol fod yn sylweddol o ran y cynnydd posib mewn ceisiadau am gefnogaeth gan nifer mawr o bobl hŷn. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r gwasanaethau'n sefydliadol ac wedi dyddio gan annog dibyniaeth yn hytrach na hybu annibyniaeth; maent hefyd yn wynebu pwysau difrifol wrth i'r galw gynyddu a nifer y bobl sydd ar gael i ofalu ostwng.

Felly, nod y Prosiect Pobl Hyn yw ail-lunio'r gwasanaethau cyfredol i sicrhau eu bod yn mwyafu annibyniaeth, gwella dewis a rheolaeth i bobl hyn a'u bod yn hyblyg ac yn atebol i anghenion yr unigolyn.

Manteision disgwylidig mabwysiadu'r ymagwedd hon yw lleihau lefel dibyniaeth pobl hyn fel y gallant fyw yn eu cartrefi yn hwy. Gostyngiad cyfrannol yn nifer y bobl sy'n treulio'u blynyddoedd olaf yng ngofal sefydliadol a sector Gofal Cymdeithasol sy'n gynaliadwy ac sy'n gallu mynd i'r afael â rhai agweddau hybu iechyd ar ofal gyda gwasanaethau wedi'u targedu'n fwy priodol i wella canlyniadau ar gyfer pobl hyn.

Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion

Yn fras, "cael yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir" yw hanfod y rhaglen hon.

Mae niferoedd ar gofrestrau ysgolion yn gostwng yn genedlaethol ac mae hyn yn rhoi pwysau ar y system addysg oherwydd nid yw lleoedd dros ben yn fuddiol. Serch hynny, nid yw mor syml â chau ysgolion. Rhaid lleihau lleoedd gwag yng nghyd-destun paru lleoedd yn y dyfodol â galw yn y dyfodol.

Felly diffinnir gweledigaeth a nodau'r rhaglen fel a ganlyn:

- **Gweledigaeth** - rydym am i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad hwylus i gwricwlwm eang a pherthnasol sy'n diwallu eu hanghenion drwy rwydwaith o ysgolion cynhwysol o ansawdd uchel.
- **Nodau** - ein nodau trosgynnol yw gwella'r ffordd y gallwn ddiwallu anghenion pob disgybl, gwella cyflwr adeiladau ysgol a sicrhau bod pob ysgol yn ddichonadwy gyda dyfodol cadarn a dibynadwy.

Rhaglen Trafnidiaeth Integredig

Bydd Metro Abertawe, gan weithio mewn partneriaeth â First, yn cyflwyno gwedd newydd sbon ar gludiant cyhoeddus a phrofiad teithio unigryw i'r holl gwsmeriaid. Bydd Metro Abertawe'n cynnwys car stryd, cerbyd newydd sbon sy'n gwbl wahanol i bob cerbyd cludiant cyhoeddus arall: mae'n gymalog ac yn 18.7m o hyd. Mae'r gyrrwr wedi'i amgáu mewn caban sydd yn lled y cerbyd. Mae'n hawdd esgyn a disgyn gyda dwy fynedfa ac allanfa i'r cwsmeriaid. Mae'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rheiny â phroblemau symudedd, gyda ramp awtomataidd wrth y fynedfa flaen, seddi blaenoriaeth a lle i gadeiriau olwyn y tu mewn i'r fynedfa. Mae'r llwybr arfaethedig yn cysylltu dau ysbty Abertawe, canol y ddinas, yr orsaf drenau, yr orsaf fysus newydd a'r brifysgol.

Mae adeiladu cyfnewidfa newydd yn y Cwadrant hefyd yn rhan o'r rhaglen a fydd yn costio oddeutu £11.5m a bwriedir dechrau fis Ionawr 2008 gan barhau am 18 mis. Ariennir y prosiect hwn gan Grant Trafnidiaeth dros dair blwyddyn ariannol, yn amodol ar gadarnhad gan LICC.

Drwy ddarparu cyfleuster cludiant cyhoeddus o ansawdd uchel, dymuna'r Awdurdod annog mwy o bobl i ddewis cludiant cyhoeddus a gadael eu ceir gartref. Bydd ailddatblygu'r Orsaf Fysus yn allweddol fel porth trafnidiaeth ac yn darparu cyfleuster blaenllaw gydag amgylchedd gwell i deithwyr gyda chyfleusterau ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rhoddwyd sylw arbennig i ddarparu diogelwch a diogeledd gwell i ddefnyddwyr yr orsaf fysus. Cyflawnwyd hyn drwy ddyluniad a thrwy osod CCTV a fydd hefyd yn cael ei gysylltu ag ystafell reoli canol y ddinas. Bydd y Gyfnewidfa'n hygyrch i'r holl ddefnyddwyr gan gynnwys defnyddwyr â phroblemau symudedd.

Rhaglen Canol y Ddinas

Mae Fframwaith Strategol Canol y Ddinas yn sail i raglen gynhwysfawr o weithgareddau adfywio sy'n cynnwys datblygu safleoedd, cyflwyno cynigion hygyrchedd, a gwella eiddo ac amgylchedd canol y ddinas. Bydd o fudd i ganol y ddinas drwy ddarparu hyder y cynhelir yr holl gynigion ac fe'u cefnogir gan amrywiaeth eang o bartneriaid a rhaglen buddsoddiad ariannol. Paratowyd Cynllun Gweithredu a nodwyd cynlluniau sydd eisoes ar waith, a'r rheiny sydd ar y gweill ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Cyflawnir y rhain drwy gytundeb menter ar y cyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymhlith y rheiny ar waith mae:

- Cynllun Manwerthu Ffordd y Dywysoges
- Gwelliannau Amgylcheddol Craidd Canol y Ddinas
- Metro Abertawe Cam 2
- Canolfan Hamdden Abertawe
- Cynllun Preswyl/Masnachol Cei Meridian
- Salubrious Place Cam 2

Y cynlluniau blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yw:

- Cynllun defnydd cymysg y Cwadrant a Dewi Sant
- Safle Datblygu Stryd Paxton
- Safle Datblygu'r Hwylbont
- Gwelliannau ar hyd Heol Ystumllwynarth
- Rhaglen gwella adeiladau

Y Ganolfan Ddinesig

Dyma bedwar nod ac amcan y cyngor: darparu gwasanaeth sydd o fewn y chwarterl uchaf o awdurdodau unedol cymharol yn y DU, gwella boddhad cwsmeriaid, gweithredu fel un cyngor, a bod yn hygyrch ac yn atebol. Bydd prosiect y Ganolfan Ddinesig yn cefnogi cyflwyno'r nodau a'r amcanion hyn drwy ddarparu modd i gwsmeriaid gyrchu gwasanaethau drwy ganolfan gyhoeddus newydd.

Bydd y ganolfan newydd yn cynnig llyfrgell gyfoes, canolfan archifau/hanes teulu, ardal arddangos a chyfleusterau caffi newydd. Bydd cysylltiadau cludiant cyhoeddus hygyrch ac integredig yn cael eu sefydlu i gefnogi'r cyfleusterau mewnol newydd o ganol y ddinas a'r ardaloedd o amgylch i'r ganolfan ddinesig newydd.

Cafwyd cynnydd da o ran cyflwyno prosiect y ganolfan ddinesig. Mae gwaith adleoli'r holl staff bellach wedi'i gwblhau. Mae'r Ganolfan Gyswllt hefyd wedi'i chwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb gyda'r dderbynfa a'r ardal arianwyr wedi agor cyn y Ganolfan Gyswllt ym mis Medi 07.

Mae gwaith adeiladu'r llyfrgell newydd yn datblygu'n dda a disgwylir iddi agor ei drysau i'r cyhoedd yn gynnar ym mis Mawrth 08. Mae adnewyddu cyntedd y ganolfan yn Neuadd y Sir ynghyd ag adeiladu cyfleuster caffi newydd ac ardal arddangos i'w cwblhau ym mis Mawrth 08. Ymysg elfennau olaf y prosiect fydd darparu cysylltiadau trafnidiaeth hygyrch â'r ddinas a gwella mynediad cyffredinol i'r adeilad. Dechreuodd y gwaith ym mis Medi 07 a bydd wedi'i gwblhau ar gyfer lansiad llawn y Ganolfan Ddinesig ym mis Mawrth 08.

Y Ganolfan Hamdden

Mae'r Cyngor yn buddsoddi £32 miliwn er mwyn trawsnewid hen ganolfan ddinesig Abertawe yn atyniad hamdden cyfoes ar gyfer yr 21ain ganrif. Disgwylir i'r atyniad newydd gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2007 i'w agor ym mis Ionawr 2008.

Bydd yr atyniad newydd yn cynnwys parc dŵr sy'n cynnig pwll tonnau, afon ddiog, pwll rhyngweithiol gyda chanonau dŵr, nant swigod a bwced tipio, pwll swigod, pwll addysg a pheiriant syrffio. Mae nodweddion eraill yn cynnwys dwy lithren dŵr a reid dŵr Master Blaster. Bydd yr ystafell iechyd a ffitrwydd yn darparu'r ystafell ffitrwydd fwyaf yng Nghymru gan ymestyn dros ddau lawr a chynnig dros 150 o beiriannau ymarfer corff. Bydd dwy stiwdio ddawns sy'n edrych dros y parc dŵr yn cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o ddosbarthiadau dawnsio ac ymarfer tra bydd y Spa yn cynnig dwy ystafell driniaeth a jacuzzi, sawna, ystafell ager ac ystafell aromatherapi.

Bydd y neuadd chwaraeon newydd sy'n cynnig 8 cwrt badminton neu ddau faes 5 bob ochr dan do yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon at safon gystadlu rhanbarthol neu genedlaethol a bydd hefyd yn gweithredu fel neuadd ddigwyddiadau a fydd yn gallu cynnwys hyd at 2,000 o bobl ar eu traed mewn cyngerdd neu hyd at 1600 o bobl yn eistedd ar ffurf theatr ar gyfer seminar neu gynhadledd. Bydd ardal chwarae newydd i blant ar bedwar llawr yn cynnig amrywiaeth gwych o gyfarpar chwarae i blant gan gynnwys ardaloedd chwarae clyweled rhyngweithiol. Bydd wal ddringo newydd o allu amrywiol hefyd yn cael ei gosod gyferbyn â'r ardal chwarae.

Lluniwyd y prosiect hwn i gefnogi strategaeth Iechyd a Lles y Cyngor a Strategaeth Dringo'n Uwch LICC.

Ynghyd â darparu atyniad iechyd, ffitrwydd a hwyl newydd sbon ar gyfer trigolion Abertawe, bydd y cyfleuster hamdden newydd yn atyniad tywydd gwlyb deniadol i ymwelwyr ag Abertawe, gan gryfhau safle Abertawe ymhellach fel cyrchfan dwristiaeth strategol. Bydd y prosiect hwn yn gyfraniad pwysig i gyflawni gweledigaeth y Cyngor fel a nodwyd yn strategaeth twristiaeth 2006.

Y weledigaeth yw: "Erbyn 2015, bydd Bae Abertawe wedi'i sefydlu fel un o brif gyrchfannau morwrol Ewrop drwy gydol y flwyddyn ar gyfer hamdden a thwristiaeth fusnes, gan gynnig cyfuniad unigryw o brofiadau hamdden, chwaraeon a diwylliant o ansawdd uchel mewn amgylchedd rhagorol".

Rhagwelir y bydd y cyfleuster newydd yn denu hyd at filiwn o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda ac ar hyn o bryd dylai gael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb. Bydd yr atyniad hamdden newydd yn cael ei reoli gan ymddiriedolaeth nid er elw newydd.

Rhaglen Rheoli Asedau

Y Cynllun Rheoli Asedau (CRhA) corfforaethol yw'r dull y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i reoli ei asedau eiddo. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ei bortffolio cyfan, gweithredol a buddsoddi.

Mae'r CRhA yn cynnwys cyfres o gynlluniau gwaith cysylltiedig gyda pherthnasoedd cymhleth. Gellir dweud bod ganddo ddau amcan bras.

Yn gyntaf, rhaid sicrhau bod adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'n addas at y diben er mwyn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cynnal a chadw sy'n sicrhau y bydd y portffolio'n gynaliadwy yn yr hir dymor.

Yn ail, mae'n cynnwys strategaethau i sicrhau bod cyfalaf y Cyngor sy'n cael ei fuddsoddi mewn eiddo yn darparu enillion boddhaol. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni caffael a gwaredu.

Rhaglen y Ddeddf Plant

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflwyno'r gofynion o dan Ddeddf Plant (2004). Y bwriad yw bod plant a phobl ifanc yn Abertawe'n iach, yn ddiogel, yn mwynhau ac yn cyflawni, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol ac yn cyflawni lles economaidd. Eir i'r afael â hyn drwy weithio gwell rhwng adrannau'r Cyngor, iechyd, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Rydym yn disgwyl gwella cyflwyno gwasanaethau, storio data a gwybodaeth, cronni adnoddau ac integreiddio gwasanaethau ynghyd. Ar hyn o bryd, mae cynllun plant a phobl ifanc sengl yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2008 yn dilyn gwaith i nodi anghenion.

Cyswllt Abertawe

Mae darparu mynediad gwell i gwsmeriaid i wasanaethau'r Cyngor yn nod trosgynnol ac yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor hwn.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddilyn ymagwedd fwy graddedig at gyflwyno'r flaenoriaeth gorfforaethol hon. Bydd y fenter Cyswllt Abertawe'n cynnwys sefydlu Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid sy'n cyflwyno gwasanaeth generig ar gyfer ymholiadau cwsmeriaid, cyflwyno cyfres o wasanaethau canolog manylach yn seiliedig ar anghenion technoleg hanfodol. Wrth i'r ganolfan gyswllt ddatblygu, bydd yr amrywiaeth o wasanaethau a gyflwynir yn cynyddu lle mae'n fuddiol gwneud hynny.

Bydd disgwyl i'r Ganolfan Gyswllt drafod wyneb yn wyneb gyda chwsmeriaid. Bydd y Ganolfan Gyswllt ar gael y tu hwnt i oriau craidd y Cyngor ac fe'i dylunnir i fod yn hygyrch i'r holl gwsmeriaid.

Bydd Cyswllt Abertawe'n datblygu fesul dau gyfnod a'r cyfnod cyntaf fydd agor elfen wyneb yn wyneb y Ganolfan Gyswllt ym mis Medi 2007. Byddai'r ail gyfnod, a fwriedir ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ac yn amodol ar achos busnes, yn rhoi canolfan alwadau gorfforaethol ar waith. Mae'r ymagwedd fesul cyfnod hwn yn galluogi'r Cyngor i reoli effaith newid a chost ei weithredu.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, mae gwefan y Cyngor yn cael ei hail-greu a'i hail-lansio gyda mynediad gwell i amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor. Bydd y safle newydd yn ysgogi effeithlonrwydd drwy ganolbwyntio ar wasanaethau gweithrediadol.

Prosiect Adolygu Cyflogau a Graddfeydd

Bydd y prosiect adolygu cyflogau a graddfeydd yn rhoi System Cyflogau a Graddfeydd newydd ar waith sy'n cyd-fynd â gofynion Cytundeb Cyflogau Cenedlaethol 2004-2007. Y nod trosgynnol yw gwaredu cyflogau gwahanol am yr un swydd, a chreu system gyflogau deg yn seiliedig ar egwyddorion cyflog cyfartal ar gyfer gwaith o werth cyfartal.

Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys datblygu fframwaith y gellir gwneud penderfyniadau strategol ynddo ynghylch gwobrwyon gan osod y sylfeini ar gyfer datblygu fframwaith gwobrwyon strategol yn seiliedig ar berfformiad gwell.

Adolygiad corfforaethol o drafnidiaeth

Mae'r prosiect hwn yn rhan sylfaenol o'r Rhaglen Adolygu Cyllidebau ac fe'i nodwyd fel maes posib ar gyfer arbedion cyllideb.

Mae trefniadau cludiant y Cyngor yn amrywiol iawn, yn cael eu harwain gan wasanaethau ac yn ddibynnol ar anghenion a gofynion pob Maes Gwasanaeth. Mae nifer helaeth o Gydlynwyr/Swyddogion Cyswllt Trafnidiaeth yn y Cyngor y mae ganddynt bolisiau a gweithdrefnau gweithredu gwahanol mewn rhai achosion. Mae angen dehongliad cyffredinol o ddeddfwriaeth ar y Cyngor ynghylch y Drwydded Gweithredwyr y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â hi. Mae cost Trafnidiaeth yn sylweddol i'r Awdurdod felly mae angen rheolaeth ariannol gref ar gostau.

Mae'r prosiect hwn yn ceisio cymryd golwg gyffredinol ar yr holl systemau hyn a gwerthuso opsiynau i gael gwelliannau/manteision/arbedion i'r Cyngor.

Y manteision a nodwyd yw:

- Rheoli risgiau ac felly lleihau costau yswiriant
- Y gallu i adrodd ar a dangos defnydd cynhyrchiol o gerbydau.
- Gwella rheolaeth ariannol gan sicrhau'r defnydd gorau o gyllidebau
- Defnyddio rheolyddion yn gyson i sicrhau bod ein hatebolrwydd/ cyfrifoldeb corfforaethol yn rheoli gweithgareddau gyrru sy'n ymwneud â'r gwaith
- Cyfrannu at amgylchedd glanach
- Gwaredu dyblygu a gwastraff

Pennod 8

Crynodeb o Berfformiad ar gyfer 2006/2007

Mae cyflawni gwelliant parhaus yn nod allweddol ar gyfer y Cyngor hwn. Dengys perfformiad yn 2006/07 bod **70% o fesurau perfformiad yn dangos gwelliant yn gyffredinol neu'n perfformio orau**. Gwelwyd meysydd gwella ar draws pob un o'r prif feysydd gwasanaeth megis:

- Cynyddodd canran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 10 niwrnod gwaith o 76% yn 2005/06 i 99.35% yn 2006/07.
- Mae canran y gorchmynion Amddiffyn Brys yr ymatebwyd iddynt o fewn diwrnod yn parhau ar berfformiad gorau o 100%.
- Gwnaeth yr amser cyfartalog ar gyfer prosesu ceisiadau newydd a hysbysiadau o newid amgylchiadau ragori ar eu targedau gyda'r ddau yn gwella ar eu perfformiad yn 2005/06. Y canlyniadau terfynol oedd 22.79 diwrnod ac 11.79 diwrnod yn ôl eu trefn.
- Y targed ar gyfer canran treth y cyngor a gasglwyd yn ystod 2006/07 oedd 96%. Rhagorwyd ar y targed hwn gyda chyfradd gasglu derfynol o 96.23%.
- Roedd 53% o bobl o'r farn eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am y Cyngor o'i gymharu â tharged o 43%.
- Roedd cyfraddau diweithdra yn Abertawe 0.1% islaw cyfartaledd Cymru.
- Mae nifer yr ymwelwyr unigryw â gwefan y Cyngor wedi rhagori ar ei darged gyda 1,471,952 o ymwelwyr ar gyfer 2006/07.
- Er gwaethaf lefelau presenoldeb yn gostwng ychydig mewn ysgolion cynradd (91.9%) ac ysgolion uwchradd (89.7%) oherwydd y ffliw, roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ar gyfer hydref 2005 a haf 2006 wedi cynyddu ar y flwyddyn flaenorol, gan arwain at bresenoldeb uwchradd yn Abertawe'n codi o'r 15fed safle i'r 14eg o'r 22 safle ar gyfer awdurdodau Cymru.
- Mae nifer y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster allanol cymeradwy yn gwella o'i gymharu â chanlyniad y llynedd a'r targed ar gyfer 2006/07. Mae'r gwelliant yn berthnasol i'r holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheiny mewn gofal) gyda chanlyniad o 2.65% o'i gymharu â 3.6%. O ran y disgyblion hynny mewn gofal, dim ond 4.17% sydd bellach o'i gymharu â 26.92% yn flaenorol. Gosodwyd targed o 72 y cant ar gyfer dysgwyr sy'n gadael Hyfforddiant Cyflogaeth gyda chanlyniad cadarnhaol, a rhagorwyd ar hyn gyda chanlyniad o 82%. Roedd cyflwyno'r sgiliau allweddol ar gyfer yr holl hyfforddai'n atebol am y gwelliannau a gafwyd yn y maes hwn.
- Mae nifer y disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yn ystod y flwyddyn wedi rhagori ar eu targedau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Cafwyd perfformiad o 0.05 mewn ysgolion cynradd o'i gymharu â tharged o 0.25 ac 1.07 mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu â 1.2. Mae'r cyfraddau gwahardd yn amrywio ac eleni dengys bod y rhif yn is nag arfer.

- Cafwyd gwelliant sylweddol yn nifer y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) fesul 1000 o'r boblogaeth a gynorthwywyd i fyw gartref o gymharu â pherfformiad y llynedd ac mae wedi rhagori ar y targed o 57 fesul 1000 o'r boblogaeth gyda chyflawniad o 102.12 fesul 1000 o'r boblogaeth.
- Er bod hyn yn ddangosydd newydd ar gyfer 2006/07, mae canran y plant ar gofrestrau amddiffyn plant y mae eu hachosion yn cael eu hadolygu o fewn graddfeydd amser statudol, yn galonogol gyda 96.3% o'i gymharu â tharged o 95%.
- Mae nifer y teuluoedd digartref sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfwng, wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Y perfformiad ar gyfer 2006/07 yw 9 teulu o'i gymharu â tharged o 38 yn erbyn perfformiad y llynedd o 54.
- Nifer cyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau nad ydynt ar frys - mae perfformiad o 18.8 niwrnod o fewn y targed o 24 diwrnod tra hefyd yn mynychu 99% o argyfyngau o fewn 24 awr.
